

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

Cynllun Strategol 2022 i 2032

Cymraeg mewn **Addysg**



RHONDDA CYNON TAF

Rhagair

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi ymrwymo i gefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru 'Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr', sy'n cyfrannu at gyflawni un o nodau cyffredinol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef creu 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ("Y Cynllun Strategol") y Cyngor yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gwella dros y deng mlynedd nesaf, hyd at a chan gynnwys 2032, a'r camau y byddwn ni'n eu cymryd i sicrhau cynnydd o 10% yng nghanran y disgyblion blwyddyn 1 mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i ni sicrhau bod rhieni a gwarcheidwaid yn derbyn gwybodaeth ddigonol o ansawdd am fanteision addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithrwydd, a chynyddu nifer y disgyblion sy'n cael mynediad i'w haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd angen i ni fod yn greadigol wrth weithio'n rhan o bartneriaeth â darparwyr, gwasanaethau gwella rhanbarthol a Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer yr athrawon sy'n addysgu'r Gymraeg ac athrawon addysg cyfrwng Cymraeg yn y system fel bod digon o weithwyr addysg proffesiynol o ansawdd uchel ar gael i ddiwallu ein hanghenion lleol.

Mae angen hwyluso hyn drwy farchnata gwell a buddsoddiad parhaus mewn darpariaeth addysg meithrin cyfrwng Cymraeg, a datblygu ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi'u hadnewyddu'n sylweddol, yn ogystal ag ysgolion newydd, sy'n addas ar gyfer yr 21^{ain} ganrif. Hefyd, mae angen sicrhau cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion sy'n cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg ochr yn ochr â chynnydd y mae modd ei fesur yng nghyrhaeddiad disgyblion sy'n medru'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae angen cynnig cyfleoedd i gyfathrebu drwy'r Gymraeg ym mhob cyfnod addysg fel bod yr iaith yn parhau i ffynnu yn ein hysgolion, ein gweithleoedd, a'n cymunedau. Bydd cryfhau defnydd y Gymraeg y tu hwnt i gatiau'r ysgol mewn mannau cymdeithasol, yn y gweithle a ledled ein cymunedau hefyd yn rhan annatod o greu amgylchiadau i'r Gymraeg ffynnu a thyfu yn Rhondda Cynon Taf.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cynnal Eisteddfod Genedlaethol 2024, a fydd yn rhoi llwyfan a chyfle gwych i bawb fwynhau ein treftadaeth a'n diwylliant unigryw, a darparu gwell cyfleoedd i'r Gymraeg dyfu. A ninnau'n awdurdod lleol sydd â'r nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn y rhanbarth, rydyn ni mewn sefyllfa dda i ddefnyddio'r Gymraeg yn ein cymunedau yn sail i'r twf yma, ac i sicrhau bod pawb yn ystyried y Gymraeg yn rhywbeth y dylid ei meithrin ac sy'n perthyn i ni i gyd.

Ar y cyd â'n partneriaid, byddwn ni'n ymdrechu i weithio mewn modd arloesol a chreadigol i sicrhau gwreiddu'r dyheadau yma er budd ein cymunedau a hir oes i'r Gymraeg am y cenedlaethau i ddod.

Y Cynghorydd Rhys Lewis

Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg

CYNNWYS	RHIF Y DUDALEN:
Ein gweledigaeth	4
Cyflawni ein gweledigaeth	6
Cyd-destun strategol	7
Deilliant 1: Mwy o ddisgyblion meithrin/tair oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg	12
Deilliant 2: Mwy o ddisgyblion dosbarth derbyn/pump oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg	18
Deilliant 3: Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau iaith Gymraeg wrth bontio o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall	21
Deilliant 4: Mwy o ddisgyblion yn astudio ar gyfer cymwysterau wedi'u hasesu yn y Gymraeg (y pwnc) a phynciau trwy gyfrwng y Gymraeg	24
Deilliant 5: Mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol	27
Deilliant 6: Cynnydd yn narpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag ADY (yn unol â'r dyletswyddau wedi'u pennu gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, neu "Ddeddf ALNET")	30
Deilliant 7: Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu'r Gymraeg (y pwnc) ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg	33
Atodiad Un: Methodoleg ar gyfer gosod targedau	36
Atodiad Dau: Proffil ieithyddol y fwrdeistref sirol	38
Atodiad Tri: Data Gwaelodlin	40

EIN GWELEDIGAETH

Wrth i Gyngor Rhondda Cynon Taf edrych i'r dyfodol, ein gobaith yw defnyddio'r hyn rydyn ni eisoes wedi'i gyflawni yn sylfaen i sicrhau bod pob tref a chymuned yn lle gwych i fyw, gweithio a chwarae ynddyn nhw. Ein gweledigaeth gyffredinol ar gyfer y fwrdeistref sirol yw i bawb fod mor iach, annibynnol a llewyrchus â phosibl. Mae galluogi mynediad i addysg dda, darparu cyfleoedd cyflogaeth da, a datblygu sgiliau ein holl drigolion yn feysydd blaenoriaeth allweddol.

Mae ein Cynllun Strategol yn chwarae rhan allweddol wrth wireddu'r uchelgais yma, wrth i ni ymdrechu i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg. Bydd hyn angen arweiniad clir ac ymrwymiad i'r achos. Wrth wraidd y ddogfen yma mae ein prif nod, sef:

Cynnydd yng nghanran y disgyblion blwyddyn 1 mewn addysg cyfrwng Cymraeg o 10% yn ystod oes deng mlynedd y Cynllun Strategol yma, gan gynyddu canran y disgyblion blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf i 30%. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd yn nifer y disgyblion blwyddyn 1 mewn addysg cyfrwng Cymraeg o 524 i 795.

Mae'r targed yma wedi'i seilio ar garreg filltir Cymraeg 2050, sef 30% o ddisgyblion yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2031. Mae esboniad manylach o'r fethodoleg a gafodd ei defnyddio i osod y targed yma ar gael yn Atodiad Un – Methodoleg ar gyfer gosod targedau. Wrth gyflawni ein targed, bydd hyn nid yn unig yn cyfrannu at wella niferoedd trigolion sy'n siarad Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf, ond bydd hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at darged Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, fel sydd wedi'i nodi yn strategaeth 'Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr'.

Byddwn ni'n cyflawni ein gweledigaeth wrth gefnogi plant i gael y dechreuad gorau mewn bywyd yn rhan o system y blynyddoedd cynnar well, cefnogi teuluoedd sy'n rhan o'r cynnig gofal plant ac wrth barhau i fuddsoddi mewn cyfleusterau ysgol a chymunedol newydd a llawer gwell yn rhan o raglen buddsoddi mewn Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

Gan gydnabod pwysigrwydd cynllun 'Cymraeg 2050' a pha mor hanfodol yw'r system addysg i gyflawni ei weledigaeth gyffredinol, mae'r Cynllun Strategol yma'n nodi cynllun deng mlynedd yr awdurdod lleol ar gyfer cyfrannu at ein gweledigaeth gyffredin. Ein prif amcanion ar gyfer cyfnod y Cynllun Strategol yma yw:

- Creu perthynas waith adeiladol – a'i chynnal – gyda swyddogion mewnol ac allanol, partneriaid, grwpiau, a sefydliadau sy'n cyfrannu at y Cynllun Strategol.
- Mynd ati'n weithredol i farchnata a rhoi cyhoeddusrwydd i fanteision dwyieithrwydd ac addysg cyfrwng Cymraeg fel bod gyda rhieni/gwarcheidwaid wybodaeth

ddigonol i ddod i benderfyniadau gwybodus ac amserol ynghylch addysg eu plentyn yn gynnar iawn ym mywyd eu plentyn.

- Sicrhau y bydd gyda phob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn y fwrdeistref sirol leoliad gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg wedi'i gydleoli ar y safle, neu o fewn pellter cerdded iddo, er mwyn darparu proses bontio di-dor o'r blynyddoedd cynnar i addysg statudol cyfrwng Cymraeg.
- Yn amodol ar y gymeradwyaeth berthnasol, anelu at sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg lle mae safleoedd y cynllun datblygu lleol yn cyfiawnhau cael rhagor o leoedd mewn ysgolion.
- Sicrhau bod pob plentyn yn y fwrdeistref sirol yn cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgol o'u dewis a bod cyflenwad digonol i ateb y galw.
- Sicrhau buddsoddiad sylweddol er mwyn darparu a gwella cyfleusterau addysgol modern ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg a chynyddu lleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.
- Sefydlu darpariaeth drochi yn y Gymraeg, a'i chynnal, er mwyn cefnogi'r rheiny sy'n dod i'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg yn hwyr.
- Cryfhau cyfleoedd i ddysgu Cymraeg yn ail iaith yn unol â'r Cwricwlwm newydd i Gymru a rhoi'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol i ddisgyblion i lwyddo yn y byd gwaith, yn eu bywydau ac wrth astudio.
- Ehangu darpariaeth dosbarthiadau cynnal dysgu ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY) cyfrwng Cymraeg yn ein holl ysgolion cynradd ac uwchradd.
- Parhau i gydweithio â Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De ("Y Consortiwm"), Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol eraill i ymrwmo i gynllunio'n effeithiol a chynyddu'r gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg.



CYFLAWNI EIN GWELEDIGAETH


Er mwyn gwireddu'r weledigaeth yma, byddwn ni'n gwneud pob ymdrech i barhau i feithrin a chynnal perthynas waith adeiladol gyda'r holl grwpiau a sefydliadau perthnasol. Dim ond wrth weithio'n effeithiol yn rhan o bartneriaeth, cael atebolrwydd lefel uchel a bod yn arloesol y byddwn ni'n cyflawni ein gweledigaeth uchelgeisiol.

Mae grŵp strategol wedi'i sefydlu gyda'n partneriaid allweddol i sicrhau bod ein gweledigaeth yn cael ei gwireddu yn ein holl leoliadau addysg, ysgolion, gweithleoedd a chymunedau. Ochr yn ochr â Grŵp Strategol y Cynllun Strategol ac o'r pwys mwyaf i'w lwyddiant y mae'r Is-grŵp Marchnata a Hyrwyddo. Mae hyn yn cynnwys swyddogion yr awdurdod lleol a phartneriaid a sefydliadau allanol.

O dan y Grŵp Strategol, bydd Is-grwpiau Cyflawni Deilliannau. Unwaith eto, bydd y rhain yn cynnwys partneriaid mewnol ac allanol allweddol. Bydd pob grŵp yn canolbwyntio ar eu deiliant penodol eu hunain, ac yn ei flaenoriaethu, gan sicrhau mai cyflawni pob deiliant dros gyfnod y Cynllun Strategol yw ei brif amcan. Bydd pob is-grŵp yn cael ei arwain gan uwch swyddog yr awdurdod lleol a'i lywio gan gylch gorchwyl cymeradwy.

Yn ôl yr angen, bydd prosiectau 'gorchwyl a gorffen' pellach yn cael eu sefydlu ar adegau amrywiol yn ystod y cyfnod o ddeng mlynedd er mwyn darparu dull wedi'i dargedu pellach. Bydd grwpiau gorchwyl a gorffen yn cael eu creu i gyflawni prosiectau sy'n canolbwyntio ar elfennau penodol. Bydd aelodaeth y grwpiau'n dibynnu ar gylch gorchwyl y prosiect sydd wedi'i nodi. Bydd y Grŵp Strategol yn cymeradwyo'r broses yma. Unwaith eto, bydd pob grŵp yn cael ei arwain gan swyddog yr awdurdod lleol.

Mae siart sefydliadol sy'n nodi'r berthynas rhwng pob un o'r grwpiau i'w weld isod.



CYD-DESTUN STRATEGOL

Wrth ddatblygu'r Cynllun Strategol yma, mae'r holl ddeddfwriaeth, strategaethau a pholisïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol perthnasol a chyfredol wedi'u hystyried er mwyn annog a sicrhau'r twf tymor hir ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf.

STRATEGAETHAU CENEDLAETHOL

Cymraeg 2050

Yn 2017, rhannodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth '**Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr**', gan amlinellu'r dull hirdymor o gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Ei gweledigaeth ar gyfer y flwyddyn 2050 yw:

Mae'r Gymraeg yn ffynnu, mae miliwn o siaradwyr Cymraeg, ac mae'r iaith yn cael ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Ymhlith y rheiny sydd ddim yn siarad Cymraeg mae ewyllys da ac ymdeimlad o berchnogaeth tuag at yr iaith a chydnabyddiaeth gan bawb o'i chyfraniad i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru.

Mae'r strategaeth yn cydnabod bod addysg yn allweddol i gyflawni'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg ac felly mae ei gweledigaeth yn parhau'n ganolog i'r Cynllun Strategol yma a phob deilliant unigol.

Deddf ALNET 2018

Daeth Deddf ALNET i rym fis Medi 2021. Rhoddodd fframwaith statudol newydd ar waith, wedi'i ategu gan dri amcan cyffredinol:

- Fframwaith deddfwriaethol unedig yn gymorth i bob plentyn o oedran ysgol gorfodol neu'n iau gydag ADY a phobl ifainc ag ADY sydd yn yr ysgol neu mewn addysg bellach.
- Proses integredig a chydweithredol o ran asesu, cynllunio a monitro'r cymorth y mae disgyblion ag ADY yn ei gael gan hwyluso ymyriadau cynnar, prydlon ac effeithiol.
- System deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chynghor ac i ddatrys pryderon ac apeliadau.

Mae'r nod o greu system ddwyieithog o gymorth i ddisgyblion ag ADY wrth wraidd Deddf ALNET. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ystyried a ddylai disgybl dderbyn darpariaeth ddysgu ychwanegol yn y Gymraeg. Rhaid iddyn nhw hefyd sicrhau bod pob cam rhesymol yn cael ei gymryd i sicrhau'r ddarpariaeth. Wrth adolygu'r trefniadau ar gyfer disgyblion ag ADY ac i ba raddau y mae'r trefniadau hynny'n ddigonol i ddiwallu anghenion plant a phobl ifainc, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ystyried digonolrwydd y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn y Gymraeg. Os yw'r awdurdod lleol yn ystyried bod y trefniadau ddim yn ddigonol, rhaid cymryd pob cam rhesymol i unioni'r mater.

Deddf Gofal Plant 2006 ("Deddf 2006")

Mae Deddf 2006 yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol i sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar digonol ar gyfer rhieni/gwarcheidwaid sydd angen darpariaeth gofal plant er mwyn gweithio, ymgymryd â hyfforddiant neu addysg neu baratoi ar gyfer gwaith. Mae gydag awdurdodau lleol y prif gyfrifoldeb dros hwyluso'r farchnad gofal plant i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion rhieni/gwarcheidwaid, yn enwedig y rheiny sydd ag incwm isel, y rheiny sydd â phlant ag ADY, neu'r rheiny sydd am i'w plant fynychu lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. O dan Ddeddf 2006, mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol baratoi Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant er mwyn dysgu am y ddarpariaeth yn yr ardal a datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion wedi'u nodi. Mae deilliannau asesiadau 2022 i 2025 wedi'u hystyried ac wedi'u hadlewyrchu yn rhan o'r Cynllun Strategol yma.

Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

Mae trefniadaeth ysgolion yn ddyletswydd statudol wedi'i gosod ar y fwrdeistref sirol. Mae'r Ddeddf yn ymdrin â hi. Mae nifer y llefydd sydd ar gael ym mhob ysgol yn cael ei hadolygu'n flynyddol gan Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant yr awdurdod lleol. Caiff hyn ei wneud gan ddefnyddio data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), rhagolygon ysgol, ceisiadau derbyn blynyddol a gwybodaeth genedigaethau byw Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Mae unrhyw gynnydd o ran cyfraddau geni a phoblogaethau disgyblion, yn enwedig ym maes addysg cyfrwng Cymraeg, yn cael ei fonitro'n agos. Os yw'r cynnydd yn parhau ac yn amlwg o fewn dalgylch ysgol benodol, caiff hyn ei ddefnyddio i lywio gwaith cynllunio a darpariaeth trefniadaeth ysgolion.

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol gyhoeddi strategaeth bum mlynedd i hwyluso a hyrwyddo'r Gymraeg. Cafodd y strategaeth bum mlynedd gyntaf ei chymeradwyo yn 2016. Roedd yn amlinellu nifer o feysydd polisi allweddol er mwyn cynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn ystod ei hoes, a'i chynyddu. Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022–2027 fydd ail strategaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o dan Safon 145 o'i Hysbysiad Cydymffurfio (Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011). Mae'n barhad o'r strategaeth gyntaf (2016–2021), ac yn defnyddio gwaith y Cyngor a'n partneriaid i hyrwyddo a hwyluso'r iaith dros y pum mlynedd diwethaf yn sylfaen iddi. Bydd y strategaeth allweddol yma a'r Cynllun Strategol yma'n cydweddu, fel sydd wedi'i adlewyrchu yn y themâu isod:

Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

- Trosglwyddo'r iaith yn y cartref
- Y blynyddoedd cynnar
- Addysg statudol
- Addysg ôl-orfodol
- Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau.

Thema 2: Cynyddu defnydd y Gymraeg

- Y gweithle
- Gwasanaethau
- Defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

- Cymuned ac economi
- Diwylliant a'r cyfryngau
- Cymru a'r byd ehangach
- Technoleg ddigidol
- Seilwaith ieithyddol
- Cynllunio ieithyddol
- Gwerthuso ac ymchwil.

Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ("y Mesur")

Mae'r Mesur yma'n gosod dyletswydd statudol ar bob awdurdod lleol i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion i'w hysgolion addas agosaf os ydyn nhw'n byw pellter sydd y tu hwnt i 'bellter cerdded' o'r ysgol honno. Mae'r term 'ysgol addas' yn cyfeirio at ddalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg, ysgol cyfrwng Saesneg, ysgol ddwy iaith, ysgol prif ffrwd wirfoddol gymorthedig (yr Eglwysi), ysgol/dosbarth arbennig neu Uned Atgyfeirio Disgyblion fel y bo'n briodol. Mae'r gyfraith yn diffinio 'pellter cerdded' diogel yn ddwy filltir i ddisgyblion o oedran addysg gorfodol sy'n cael addysg gynradd, a thair milltir i ddisgyblion o oedran addysg gorfodol sy'n cael addysg uwchradd. Mae'r awdurdod lleol wedi defnyddio'r disgresiwn sydd wedi'i roi iddo gan y Mesur, a chynnig darpariaeth fwy hael i ddisgyblion, fel a ganlyn:

- Mae'r maen prawf ar gyfer pellter cerdded i ddisgyblion sy'n derbyn addysg gynradd orfodol yn eu hysgol addas agosaf wedi'i osod ar 1½ milltir, yn hytrach na 2 filltir.
- Mae cludiant am ddim i'w hysgol addas agosaf, lle bo lleoedd ar gael, wedi'i ddarparu ar gyfer disgyblion sy'n bodloni meini prawf 1½ milltir ar ddechrau'r cyfnod sylfaen (tymor yr ysgol sy'n dilyn pen-blwydd y plentyn yn 3 oed), yn hytrach nag ar ddechrau addysg orfodol (y tymor nesaf yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn 5 oed).
- Mae'r maen prawf ar gyfer pellter cerdded i ddisgyblion sy'n cael addysg uwchradd orfodol yn eu hysgol addas agosaf wedi cael ei osod ar 2 filltir, yn hytrach na 3 milltir.
- Mae cludiant am ddim yn cael ei ddarparu ar gyfer disgyblion ôl-16 oed sy'n bodloni'r maen prawf 2 filltir am ddwy flynedd ar ôl diwedd addysg orfodol, yn hytrach na hyd ddiwedd addysg orfodol (y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn y flwyddyn ysgol y mae disgybl yn cael ei ben-blwydd yn 16 oed). Mae'r ddarpariaeth yma'n berthnasol i ddisgyblion amser llawn sy'n mynychu'r ysgol neu'r coleg agosaf i'w cartrefi sy'n darparu'r cwrs cymeradwy maen nhw am ei astudio.
- Mae cludiant am ddim i'w hysgol addas agosaf yn cael ei ddarparu ar gyfer disgyblion (fel sydd wedi'i nodi uchod) yn unol â'u henwad crefyddol o ddewis.

Mae Polisi, Gwybodaeth a Threfniadau Teithio gan Ddysgwyr yr awdurdod lleol yn cynnwys gwybodaeth i rieni/gwarcheidwaid a disgyblion am sut y caiff y polisi ei roi ar waith yn ymarferol a sut mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff ei gymhwyso'n gyson ac yn deg. Mae'r polisi cyfredol yn nodi bod disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwy iaith agosaf yn cael gwasanaeth cludiant am ddim yn unol â pholisi'r Cyngor ynghylch pellter cerdded a llwybrau diogel.

STRATEGAETHAU LLEOL

'Gwneud Gwahaniaeth' – Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2020-2024

Mae Cynllun Corfforaethol Rhondda Cynon Taf yn llinyn parhaus drwy'r Cynllun Strategol yma ac mae'i werthoedd yn cefnogi cyflawni pob deiliant. Y gwerthoedd pwysig yma yw:

- Sicrhau bod pobl yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus.
- Creu lleoedd y mae pobl yn falch o gael byw, gweithio a chwarae ynddyn nhw.
- Creu cyfleoedd ar gyfer ffyniant er mwyn i bobl fod yn arloesol, entrepreneuriaidd a chyflawni eu potensial a ffynnu.

Cynllun Strategol Gwasanaeth Addysg a Chynhwysiant Rhondda Cynon Taf 2022-2025

Mae'r cynllun yma'n sail i'r holl ddatblygiadau strategol sy'n cael eu cyflawni ym maes addysg. Mae cenhadaeth syml i'r cynllun: 'cyflawni tegwch a rhagoriaeth mewn addysg a lles gwell i bawb'. Mae manylion blaenoriaethau'r cynllun sy'n cwmpasu nifer o bynciau i'w gweld isod, ac mae pob un yn cysylltu'n glir â deilliannau'r Cynllun Strategol:

- Datblygu gweithlu addysgol sy'n hynod fedrus, ac arweinwyr sy'n rhagorol ar bob lefel.
- Rhoi cymorth i ysgolion ddarparu cwricwlwm trawsnewidiol, darpariaeth ddysgu ac addysgu o safon uchel a deilliannau gwell i bawb.
- Sicrhau tegwch a chymorth i ddisgyblion sy'n agored i niwed a'u teuluoedd.
- Gwellu lles ein dysgwyr a'r gweithlu.
- Cyflwyno amgylcheddau dysgu a gwasanaethau arloesol sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif ar gyfer ein disgyblion a'n cymunedau.

Rhaglen Buddsoddi mewn Moderneiddio Ysgolion

Mae'r awdurdod lleol yn parhau i ddarparu a chefnogi ei raglen fuddsoddi strategol hirdymor i greu amgylcheddau ysgolion sy'n bodloni anghenion ein cymunedau ac yn rhoi'r ddarpariaeth ddysgu a'r deilliannau gorau ar gyfer plant a phobl ifainc a'r gymuned ehangach. Caiff y rhaglen fuddsoddi strategol hirdymor yma'i chefnogi gan gyllid yr awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Grant Cyfalaf Band B Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.
- Model Buddsoddi Cydfuddiannol Band B Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.
- Grant Hybiau Cymunedol.
- Grant Ardoll Seilwaith Cymunedol.
- Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg.
- Grant Cyfalaf Gofal Plant.

Bydd Band B Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £2.3 biliwn mewn seilwaith ysgolion a cholegau ledled Cymru. Mae gyda Rhondda Cynon Taf Raglen Band B uchelgeisiol, gyda buddsoddiadau arfaethedig o £252 miliwn.

Un o'r amcanion buddsoddi allweddol yw darparu seilwaith addysgol effeithlon ac effeithiol i fodloni'r galw presennol a'r galw yn y dyfodol. Mae buddsoddiad mewn addysg cyfrwng Cymraeg wedi bod dros y pum mlynedd diwethaf hyd at a chan gynnwys 2021 i 2022. Mae hyn wedi darparu lleoedd ychwanegol i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg ac wedi darparu adeiladau llawer gwell ar gyfer staff a disgyblion. Cafodd hyn ei gyflawni trwy Raglen

Buddsoddi Cyfalaf yr awdurdod lleol sy'n cynnwys cyfuniad o waith adnewyddu, ailfodelu, dymchwel ac adeiladu adeiladau newydd. Yn ystod yr un cyfnod, mae Rhaglen Gwaith Cyfalaf Mân wedi'i Gynllunio'r awdurdod lleol, sy'n cynnwys rhaglen barhaus o fuddsoddi mewn ysgolion, wedi buddsoddi tua £4.7 miliwn mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg.



DEILLIANT 1: MWY O DDISGYBLION MEITHRIN / TAIR OED YN DERBYN EU HADDYSG TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD

Ar hyn o bryd mae 18 o Gylchoedd Ti a Fi ac 20 o Gylchoedd Meithrin ledled y Fwrdeistref Sirol. Mae data yn nodi bod nifer y Cylchoedd Meithrin wedi gostwng. Serch hynny, mae nifer o ffactorau sy'n dylanwadu ar y data ac o'r herwydd gall lleoliad sy'n newid ei gofrestrriad i ofal oriau dydd llawn yn lle gofal sesiynol ymddangos fel pe bai nifer y Cylchoedd Meithrin wedi gostwng. Mae'r niferoedd sy'n pontio o Gylchoedd Meithrin i addysg cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Serch hynny, mae'n dal yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Byddwn ni'n parhau i weithio gyda'r sector i wella cyfraddau pontio, a hynny wrth gefnogi cynnydd yn y ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg ar hyd oes y Cynllun Strategol yma a chydlynu ymgyrch farchnata well. I gael rhagor o wybodaeth am y niferoedd sy'n mynychu Cylchoedd Ti a Fi a Chylchoedd Meithrin a'r niferoedd sy'n pontio addysg cyfrwng Cymraeg, gweler Atodiad Tri.

Mae'r data'n dangos sefydlogrwydd yn y gymhareb rhwng disgyblion oedran ysgol gynradd sy'n mynychu ysgolion cynradd Cymraeg a Saesneg yn ystod y pedair blynedd academaidd flaenorol, hyd at a chan gynnwys 2021 i 2022. Yn ystod yr un cyfnod, mae nifer y disgyblion meithrin/tair oed sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg hefyd wedi parhau'n sefydlog. Mae rhagor o wybodaeth am y data ar dudalen 15.

Mae cynllun Cymraeg i Blant, sy'n gweithio ochr yn ochr â Charfan Bydwreigiaeth ac Ymwelwyr Iechyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, yn sicrhau bod rhieni/gwarcheidwaid yn derbyn negeseuon cynnar allweddol ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg yn ystod y cyfnod cynenedigol.

Er mwyn rhoi gwybodaeth i rieni/gwarcheidwaid am fanteision y Gymraeg o oedran ifanc, mae'r awdurdod lleol wedi diweddarau ei lyfryn 'Bod yn Ddwyieithog'. Bwriad y llyfryn yma yw rhoi gwybodaeth ynglŷn â manteision bod yn ddwyieithog, olrhain llwybr i addysg cyfrwng Cymraeg ac ateb cwestiynau cyffredin ynghylch dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol. Mae'r llyfryn yn cael ei ddosbarthu ar hyn o bryd gan Garfan Bydwreigiaeth ac Ymwelwyr Iechyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar darpariaeth Dechrau'n Deg.

Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo i ddarparu gofal plant i deuluoedd sy'n gymwys ar gyfer rhaglen Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru. Yn hanesyddol, comisiynodd Cyngor Rhondda Cynon Taf 25% o'n lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg mewn naw lleoliad cyfrwng Cymraeg. Er bod y cynnig gofal plant yn cael ei wneud yn y dewis iaith wedi'i nodi ar y cais am ofal plant, mae rhai teuluoedd yn dal i wrthod y cynnig ac yn dewis y lleoliad agosaf neu'r sesiwn sydd ar gael sy'n well iddyn nhw cyn eu dewis iaith.

Cafodd adolygiad o'r model comisiynu gofal plant ei gynnal rhwng 2021 a 2022 i sicrhau bod lleoedd gofal plant a gaiff eu comisiynu ar y lefel gywir, yn yr ardaloedd cywir ac yn diwallu anghenion teuluoedd (gan gynnwys y dewis iaith). Er mwyn ymateb yn uniongyrchol i hyn, mae'r model wedi'i ddisodli gan 'Restr Darparwyr Cymeradwy'

Dechrau'n Deg newydd ac ers mis Ionawr 2022 mae'r canolbwynt wedi bod ar gynyddu nifer y darparwyr cyfrwng Cymraeg sy'n cynnig darpariaeth Dechrau'n Deg.

Bydd y model newydd yma'n galluogi'r Cyngor i brynu lleoedd yn y fan a'r lle pan fo angen a bydd yn galluogi'r lleoedd i gynyddu wrth i'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg barhau i ehangu. Mae llawer o leoliadau hefyd yn rhai economi gymysg, felly bydd hyn yn galluogi rhieni sy'n gweithio i brynu oriau gofal plant ychwanegol os oes angen. Nifer y lleoliadau darpariaeth Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd yw 16. Mae disgwyl i hyn gynyddu wrth i'r model newydd gael ei gyflwyno ac wrth i'r ehangu barhau. Bydd y newid yma'n cynyddu argaeledd lleoedd Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg ledled y fwrdeistref sirol, yn darparu gwell ddewis i rieni a bydd y gwasgariad daearyddol yn well.

Mae Grŵp Partneriaeth y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae - sy'n dod â swyddogion yr awdurdod lleol a darparwyr a sefydliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg eraill ynghyd - wedi'i ailsefydlu yn ddiweddar.

Gan ddefnyddio data a gafwyd ar gyfer Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yr awdurdod lleol am y cyfnod 2022 i 2027, cafodd cynllun gweithredu ei lunio. Yn rhan o'r cynllun gweithredu y mae'r nod cyffredinol o gefnogi nodau'r Cynllun Strategol er mwyn cynyddu cyfraddau pontio o ofal plant cyfrwng Cymraeg i addysg cyfrwng Cymraeg. O ganlyniad i hyn, cafodd chwe phrif flaenoriaeth eu nodi mewn perthynas â lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg:

- Ymgysylltu â darparwyr gofal y tu allan i oriau'r ysgol cyfrwng Cymraeg sydd heb eu cofrestru, a'u helpu i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ac ymestyn gwasanaethau i ddarparu gofal yn ystod y gwyliau mewn ardaloedd o alw a nodwyd.
- Ymchwilio i'r galw am Gylchoedd Meithrin newydd mewn ardaloedd daearyddol a nodwyd yn yr ymarfer mapio.
- Ymchwilio i ddiffygion posibl mewn gofal sesiynol a gofal diwrnod llawn cyfrwng Cymraeg yn ne Cwm Rhondda.
- Cynnig cymorth a hyfforddiant i siaradwyr Cymraeg sydd ddim yn hyderus er mwyn eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu lleoliadau a hyrwyddo eu hunain yn lleoliadau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.
- Hyrwyddo Cynnig Rhagweithiol Dechrau'n Deg i leoliadau ac annog pobl i gymryd rhan.
- Cynnal ymgyrch hyrwyddo i ddenu rhagor o warchodwyr plant Cymraeg eu hiaith.

Yn sgil cyflwyno ceisiadau llwyddiannus am gyllid cyfalaf i gefnogi datblygiad lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg, a hynny drwy Gynllun Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant a'r Cynllun Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg, mae nifer o brosiectau wedi'u datblygu i hwyluso twf ac yn benodol datblygu a/neu ehangu lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg wedi'u cydleoli ar safleoedd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Mae'r prosiectau canlynol eisoes wedi'u cwblhau:

- Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James – cafodd gwaith ad-drefnu ei gwblhau yn 2019 i ddarparu cyfleuster gofal plant pwrpasol ar y safle gan gynyddu'r sesiynau a gaiff eu cynnig a dyblu nifer y lleoedd sydd ar gael.
- Ysgol Llanhari – cyfleuster gofal plant pwrpasol wedi'i agor yn 2020, gyda chynnydd o 69 yn nifer y lleoedd cofrestredig.
- Ysgol Gynradd Gymraeg Ynyswen – agorodd y cyfleuster gofal plant newydd ym mis Medi 2020, gan gynyddu nifer y lleoedd cofrestredig i 30 ac ymestyn y gwasanaethau a gaiff eu cynnig.
- Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau – gwaith adnewyddu i'r man chwarae awyr agored wedi'i gwblhau yn 2021, gan ddarparu lle chwarae ychwanegol a mannau tawel ar gyfer y feithrinfa a'r gwasanaeth cofleidiol.
- Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant – estyniad wedi'i gwblhau yn 2021, gyda chynnydd o 30 yn nifer y lleoedd yn yr ysgol.
- Ysgol Gynradd Gymraeg Abercynon – cyfleuster gofal sesiynol newydd wedi'i agor ar safle'r ysgol yn 2022, gan greu 24 o leoedd cofrestredig ychwanegol.
- Ysgol Gynradd Dolau (dwy iaith) - cyfleuster pwrpasol newydd wedi'i agor ar safle'r ysgol yn 2022 sy'n cynnig lleoliad gofal plant cyfrwng Cymraeg ar gyfer 24 o leoedd cofrestredig a gofal cofleidiol dwy iaith yn y prynhawniau.

BLE RYDYN NI'N GOBEITHIO BOD O FEWN PUM MLYNEDD GYNTAF Y CYNLLUN STRATEGOL YMA A SUT YDYN NI AM WNEUD HYNNY?

- Mae'r awdurdod lleol yn parhau i gynnal ymarfer mapio o'r holl leoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn flynyddol er mwyn nodi unrhyw ddiffygion neu newidiadau i'r galw, ac mae'n ymateb yn unol â hynny. Bydd yr ymarferion yma'n cael eu defnyddio'n sail wrth ymchwilio i ddatblygiadau yn y dyfodol.
- Parhau i gynnal dadansoddiad manwl a monitro pontio rhwng lleoliadau'r blynyddoedd cynnar cyfrwng ac ysgolion Cymraeg i sicrhau ein bod ni'n cael cynnydd o 5% dros y pum mlynedd gyntaf, gan fynd â'r gyfradd bontio uwchlaw 70%.
- Parhau i weithio gyda Mudiad Meithrin a lleoliadau y blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg i helpu darparwyr a rhoi arweiniad i'w galluogi i ymuno â 'Rhestr Darparwyr Cymeradwy' y ddarpariaeth Dechrau'n Deg. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn penodi swyddog sicrhau ansawdd ychwanegol gan ddefnyddio grant gweinyddol i ehangu'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg, yn benodol i helpu'r lleoliadau newydd sy'n cofrestru i ddarparu gofal plant Dechrau'n Deg.
- Yn rhan o ehangu cam un y ddarpariaeth Dechrau'n Deg, rydyn ni'n rhagweld y bydd angen tua 20% o leoedd cyfrwng Cymraeg. Ein nod yw cynyddu hyn i 25% o fewn pum mlynedd gyntaf y Cynllun Strategol yma, gan weithio'n rhan o bartneriaeth a chael ymgyrch farchnata well ac wedi'i thargedu i annog rhieni/gwarcheidwaid i ystyried hyn yn opsiwn i'w plant.

- Ymwelwyr lechyd y GIG a'r gwasanaeth cofrestru genedigaethau i barhau i ddosbarthu ein deunyddiau marchnata a'n llyfyrnau Bod yn Ddwyieithog i rieni/gwarcheidwaid. Caiff y dosbarthu ei ymestyn i gynnwys lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg er mwyn helpu rhieni/gwarcheidwaid i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plentyn, yn ogystal ag adeiladau cyhoeddus ledled y fwrdeistref sirol.
- Cynnal adolygiad o broses dderbyn ar-lein ein hysgolion gan ddefnyddio'r model saernïo dewis i gynorthwyo gyda'r niferoedd sy'n manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg, a hynny drwy sicrhau bod opsiynau o ran addysg cyfrwng Cymraeg ar gael i rieni/gwarcheidwaid wrth lenwi cais ar-lein eu plentyn.
- Bydd Carfan Gofal Plant yr awdurdod lleol a rhwydweithiau'r Cyngor yn parhau i rannu gwybodaeth am sesiynau a chysiau mae modd i rieni/gwarcheidwaid eu mynychu gyda'u plant. Bydd swyddogion yn parhau i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfleusterau gofal plant cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i rieni/gwarcheidwaid.
- Cryfhau gwaith partneriaeth rhwng swyddogion yr awdurdod lleol a phartneriaid allanol megis Mudiad Meithrin, RhAG a Menter Iaith. Mae hyn er mwyn datblygu'r gwasanaethau gofal plant sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a'u hymestyn. Yn ogystal â hyn, galluogi cynllunio darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg effeithiol a chydgyssylltiedig er mwyn cefnogi datblygu ysgolion cyfrwng Cymraeg arfaethedig yn ystod oes y Cynllun Strategol yma.
- Hyrwyddo mynediad ehangach i addysg cyfrwng Cymraeg wrth sicrhau bod lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg sydd ar gael wedi'u cydleo'i ar safleoedd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg i helpu â pharhad y dilyniant ieithyddol i addysg gynradd.
- Cyflenwi prosiectau lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg pellach er mwyn hwyluso twf a darparu cyfleusterau newydd a modern. Ceir manylion y prosiectau y mae disgwyl eu cwblhau o fewn pum mlynedd gyntaf y Cynllun Strategol yma isod:
 - Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr – mae cyfleuster gofal plant sesiynol newydd ar safle'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg i fod i agor yn hwyr yn 2022, gan greu 30 o leodd cofrestredig ychwanegol.
 - Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn-y-forwyn – cyfleuster gofal plant pwrpasol newydd wedi'i leoli ar safle newydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd sbon, sydd i fod i gael ei gwblhau yn 2024.

BLE RYDYN NI'N DISGWYL BOD AR DDIWEDD EIN CYNLLUN STRATEGOL?

- Pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn y fwrdeistref sirol i gael lleoliad gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg wedi'i gydleo'i ar safle'r ysgol gynradd neu o fewn pellter cerdded i ddarparu proses bontio di-dor o'r blynyddoedd cynnar i addysg statudol cyfrwng Cymraeg.
- Ar hyn o bryd mae gyda ni ddwy ysgol pob oed (3-19 oed) cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf. Mae lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng

Cymraeg wedi'u cydleoli ar y safle. Bydd gydag unrhyw ysgol pob oed (3-19 oed) cyfrwng Cymraeg newydd a gaiff ei datblygu leoliad gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg wedi'i gydleoli ar safle'r ysgol.

- Meddu ar berthynas waith gref ac wedi'i sefydlu gyda phartneriaid allanol megis Mudiad Meithrin a RhAG i gefnogi rhieni/gwarcheidwaid plant sy'n mynychu lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg a Saesneg, i barhau â thaith addysg statudol eu plentyn i addysg cyfrwng Cymraeg.
- Sefydlu rhaglen Croesi'r Bont, sy'n cefnogi plant sy'n defnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg, ym mhob lleoliad a'i defnyddio'n weithredol.
- Sefydlu rhaglen Clebran, sy'n cefnogi defnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Saesneg, ym mhob lleoliad a'i defnyddio'n weithredol.
- Buddsoddiad pellach mewn lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg i hwyluso twf a darparu cyfleusterau gofal plant rhagorol. Y prosiectau posibl i'w cyflawni drwy gydol oes y Cynllun Strategol yma, er mwyn hwyluso'r twf rydyn ni'n ei ragweld, yw:
 - Ysgol Gynradd Castellau – creu uned feithrin y cyfnod sylfaen newydd yn yr ysgol, wedi'i hwyluso trwy ddarparu estyniad i'r ysgol bresennol. Bydd hyn yn galluogi'r lleoliad i ymestyn eu gwasanaethau a chynnig gofal plant cyfrwng Cymraeg ar safle'r ysgol drwy gydol y dydd, gan ychwanegu 30 o leoedd i'r nifer sydd ar gael.
 - Meithrinfa awyr agored – dyma fydd y cyfleuster cyntaf o'i fath yn Rhondda Cynon Taf. Bydd amgylcheddau dysgu awyr agored yn ganolog i'w ffordd o weithio. Ei nod fydd cyflawni strwythur carbon sero-net.
 - Datblygiad newydd yn ardal Nantgarw/Trefforest – agor Cylch Meithrin newydd yn yr ardal yma o'r fwrdeistref sirol, sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn ddiffyg yn y gwasanaeth yn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, i ddarparu 30 o leoedd cyfrwng Cymraeg cofrestredig sy'n cynnig dwy sesiwn y dydd, gofal y tu allan i'r ysgol a gofal yn ystod y gwyliau.

Er mwyn cyrraedd ein nod o gynyddu canran disgyblion blwyddyn 1 mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2032 10%, mae ein targedau ar gyfer y deng mlynedd nesaf, mewn perthynas â deilliant un, yn is. (Sylwer: efallai y bydd yn cymryd amser i sefydlu effaith ein hymyriadau i gynyddu nifer y disgyblion, felly efallai fydd cynnydd ddim bob amser yn dilyn tuedd linol fel sydd i'w weld yn y tabl nesaf).

Nifer a chanran y plant tair oed sy'n derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg									
2021–2022		2022–2023		2023–2024		2024–2025		2025–2026	
511	21%	540	22%	565	23%	590	24%	614	25%
2026–2027		2027–2028		2028–2029		2029–2030		2030–2032	
639	26%	663	27%	688	28%	713	29%	737	30%

Y prif bartneriaid sy'n gyfrifol am roi'r camau gweithredu sy'n rhan o'r deilliant yma ar waith yw:

- Cyngor Rhondda Cynon Taf
- Ysgolion RhCT
- Mudiad Meithrin
- Llywodraeth Cymru
- RhAG
- Gwasanaethau i Blant
- Bwrdd Iechyd Lleol



DEILLIANT 2: MWY O DDISGYBLION DOSBARTH DERBYN / PUMP OED YN DERBYN EU HADDYSG TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD

Ar hyn o bryd, mae 17 o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol. Mae hyn yn cynnwys 13 o ysgolion cynradd, dwy ysgol pob oed (3 i 19 oed) a dwy ysgol gynradd ddwy iaith.

Mae'r data'n dangos sefydlogrwydd yn y gymhareb rhwng disgyblion oedran ysgol gynradd sy'n mynychu ysgolion cynradd Cymraeg a Saesneg yn ystod y pedair blynedd academaidd flaenorol, hyd at a chan gynnwys 2021 i 2022. Yn ystod yr un cyfnod, mae nifer y disgyblion dosbarth derbyn/pum oed sy'n mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu. I gael rhagor o wybodaeth am y data yma, gweler Atodiad Tri.

Yn seiliedig ar ddata CYBLD mis Chwefror 2022, gyda'i gilydd mae gydag ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg 24.2% o leoedd dros ben. Mae lleoedd gwag unigol pob un o'r ysgolion yma'n amrywio. Mae nifer fawr o resymau am hyn.

Hyd yma, mae'r prosiectau canlynol wedi'u cwblhau i gynyddu nifer y lleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn y fwrdeistref sirol:

- Ysgol Gynradd Gymraeg Llwyncelyn – ehangu i adeilad yr hen ysgol cyfrwng Saesneg gerllaw'r ysgol a gwaith adnewyddu drwyddi draw, wedi'i gwblhau i safon Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.
- Ysgol Garth Olwg – uno'r ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn ehangu i'r lleoedd dros ben sydd ar gael a chynnal gwaith adnewyddu sylweddol i greu ysgol cyfrwng Cymraeg pob oed (3 i 19 oed).
- Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail – ehangu i adeilad yr hen ysgol cyfrwng Saesneg i gynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg. Roedd y prosiect yn cynnwys gwaith adnewyddu drwyddi draw.
- Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn – wedi newid o fod yn ysgol gynradd ddwy iaith i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn unig ym mis Medi 2021, gan gynyddu nifer y lleoedd ar gyfer y plant hynny sy'n dysgu Cymraeg sydd ar gael yn yr ardal.

Cafwyd cyllid yn 2021 drwy raglen gymorth trochi hwyr Llywodraeth Cymru i dreialu cynllun peilot i'r rheiny sy'n dod i'r Gymraeg yn hwyr, neu i ddarparu cymorth ychwanegol wedi'i dargedu i'r disgyblion hynny mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a oedd ei angen. Ar hyn o bryd rydyn ni'n paratoi cais arall i ddatblygu a sefydlu model peripatetig newydd o ddarpariaeth trochi a fydd yn helpu disgyblion ledled Rhondda Cynon Taf.

Ar y cyd â'r Consortiwm, cafodd dosbarthiad 'Pecynnau Trochi Iaith' ei ymestyn i bob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg a dwy iaith yn y fwrdeistref sirol i helpu disgyblion ymhellach gyda'u sgiliau Cymraeg.

BLE RYDYN NI'N GOBEITHIO BOD O FEWN PUM MLYNEDD GYNTAF Y CYNLLUN STRATEGOL YMA?

- Yr awdurdod lleol i gynnal ymarfer mapio o'r holl ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn flynyddol gan ddefnyddio data'r CYBLD, rhagolygon ysgolion, ceisiadau derbyn blynyddol a gwybodaeth genedigaethau byw gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i sicrhau bod unrhyw newidiadau i nifer y lleoedd yn cael eu cwblhau'n briodol. Bydd yr awdurdod lleol yn mynd i'r afael ag unrhyw newidiadau data sy'n peri pryder yn ôl yr angen.
- Dadansoddi canfyddiadau'r CYBLD yn flynyddol i fonitro nifer y lleoedd dros ben yn yr holl ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Bydd ysgolion sydd â'r canran uchaf o leoedd dros ben yn cael eu blaenoriaethu a byddwn ni'n gweithio'n agos gyda'r ysgolion, a phartneriaid allanol, i roi camau ymyrryd cadarnhaol ar waith, gan gynnwys strategaethau marchnata a hyrwyddo, er mwyn cynyddu nifer y disgyblion.
- Sefydlu darpariaeth drochi i helpu disgyblion sy'n dod i addysg cyfrwng Cymraeg yn hwyr, neu'r rheiny sydd angen cymorth ychwanegol gyda'u sgiliau Cymraeg. Bydd y ddarpariaeth yma'n mabwysiadu model hyblyg a pheripatetig o gyflenwi gwasanaeth a chaiff ei harwain gan ddisgyblion.
- Cynnal adolygiad o broses dderbyn ar-lein ein hysgolion gan ddefnyddio'r model saernio dewis i gynorthwyo gyda'r niferoedd sy'n manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg, a hynny drwy sicrhau bod opsiynau o ran addysg cyfrwng Cymraeg ar gael i rieni/gwarcheidwaid wrth lenwi cais ar-lein eu plentyn.
- Parhau i fuddsoddi mewn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg drwy raglen uchelgeisiol Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Band B, gan gynnwys:
 - Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr – darparu estyniad i ddarparu 72 o leoedd ychwanegol, i'w gwblhau erbyn mis Medi 2022.
 - Ysgol Gynradd Dolau (dwy iaith) – ehangu adeilad yr ysgol i ddarparu cyfanswm o 540 o leoedd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal, i'w gwblhau erbyn mis Medi 2024.
 - Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn-y-forwyn – creu ysgol newydd sbon ar safle newydd, darparu gwell cyfleusterau ac ehangu'r cynnig addysg gynradd cyfrwng Cymraeg lleol, i'w gwblhau erbyn mis Medi 2024.
 - Agor ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhydfelen – ar gyfer disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton ar hyn o bryd a'r disgyblion cyfrwng Cymraeg sy'n mynychu'r ysgol ddwy iaith yn Ysgol Gynradd Heol-y-Celyn, sydd i fod i agor erbyn mis Medi 2024.
 - Cwblhau ymgynghoriad trefniadaeth ysgolion statudol ar ysgol cyfrwng Cymraeg pob oed (3-19 oed) newydd yn ardal Cwm Rhondda.
 - Ysgol Llanhari – cynnal cymysgedd o waith adnewyddu ac adeiladu o'r newydd i wella'r amgylcheddau addysgu a dysgu yn sylweddol.

BLE RYDYN NI'N DISGWYL BOD AR DDIWEDD EIN CYNLLUN STRATEGOL?

- Pan fydd cyllid ychwanegol ar gael yn ystod oes y Cynllun Strategol, byddwn ni'n gwneud ceisiadau amdano, er mwyn ei fuddsoddi ymhellach mewn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf
- Byddwn ni wedi agor ysgol pob oed (3-19 oed) cyfrwng Cymraeg newydd yn ardal Cwm Rhondda
- Sefydlu model cymorth trochi llwyddiannus i ddarparu cymorth trochi i'r rheiny sy'n dod i'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg yn hwyr

Er mwyn cyrraedd ein nod o gynyddu canran y disgyblion blwyddyn 1 mewn addysg cyfrwng Cymraeg 10% erbyn 2032, mae ein targedau ar gyfer y deng mlynedd wedi'u nodi isod. (Sylwer: efallai y bydd yn cymryd amser i sefydlu effaith ein hymyriadau i gynyddu nifer y disgyblion, felly efallai fydd cynnydd ddim bob amser yn dilyn tuedd linol fel sydd i'w weld yn y tabl nesaf.)

Nifer a chanran y plant 5 oed sy'n derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg									
2021–2022		2022–2023		2023–2024		2024–2025		2025–2026	
532	21%	544	22%	569	23%	594	24%	618	25%
2026–2027		2027–2028		2028–2029		2029–2030		2030–2032	
643	26%	668	27%	693	28%	717	29%	742	30%

Y prif bartneriaid sy'n gyfrifol am roi'r camau gweithredu uchod sy'n rhan o'r deilliant yma ar waith yw:

- Cyngor Rhondda Cynon Taf
- Llywodraeth Cymru
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De
- Ysgolion RhCT
- RhAG
- Mudiad Meithrin

DEILLIANT 3: MWY O BLANT YN PARHAU I WELLA EU SGILIAU IAITH GYMRAEG WRTH BONTIO O UN CYFNOD O'U HADDYSG STATUDOL I UN ARALL

Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD

Yn ystod blwyddyn academiaidd 2015 i 2016, mae'r data'n dangos bod yr holl blant a adawodd Gylchoedd Meithrin wedi pontio i ysgolion cynradd. Pontiodd 68.9% o blant i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Cynyddodd y ganran yma i 72.4% o blant yn pontio i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn ystod blwyddyn academiaidd 2020 i 2021. Gweler Atodiad Tri am ragor o wybodaeth.

Pontio rhwng pob cyfnod allweddol am y pedair blwyddyn academiaidd flaenorol				
Pontio	Blwyddyn			
	2018–2019	2019–2020	2020–2021	2021–2022
Y cyfnod sylfaen i gyfnod allweddol dau	97.4%	97.5%	96.1%	95.8%
Cyfnod allweddol dau i gyfnod allweddol tri	97.3%	94%	94.7%	95.4%
Cyfnod allweddol tri i gyfnod allweddol pedwar	98.2%	97.3%	98.7%	98.3%
Cyfnod allweddol pedwar i gyfnod allweddol pump	53.5%	55.9%	48.5%	48.9%

Mae data yn dangos cynnydd mewn cyfraddau pontio rhwng cyfnod allweddol dau a thri oherwydd bod disgyblion Ysgol Gyfun Rhydywaun yn mynychu o Fwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, gan fod dim ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y sir honno. Yn yr un modd, mae Ysgol Llanhari yn ardal de Cwm Taf yn derbyn disgyblion o fwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr gan fod yr unig ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y sir honno ym Maesteg. Bydd yr awdurdod lleol yn parhau i gynnal gwaith cynllunio trawsffiniol gyda'r holl awdurdodau lleol cyfagos er mwyn ceisio cyrraedd ein targed o 795 o ddisgyblion blwyddyn 1 mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2032.

Mae'n ymddangos nad yw'r cyfraddau pontio ar gyfer disgyblion rhwng pob cyfnod allweddol ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg yn destun pryder. Mae'r gostyngiad o ran y pontio rhwng cyfnod allweddol pedwar a phump hefyd i'w weld yn yr un modd ar gyfer ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg, wrth i ddisgyblion benderfynu gadael yr ysgol a dilyn cyfleoedd eraill - boed y rhain yn gyfleoedd galwedigaethol, yn y gweithle neu mewn hyfforddiant.

Rhaid i ni gydnabod hefyd bod pandemig COVID-19 wedi cyflwyno heriau i ysgolion a theuluoedd a effeithiodd ar gyfraddau pontio, wrth i nifer fach o deuluoedd ddewis tynnu eu plant o addysg cyfrwng Cymraeg. Rydyn ni'n rhagweld mai effaith tymor byr fydd hyn a byddwn ni'n parhau i fonitro'r sefyllfa'n agos.

BLE RYDYN NI'N GOBEITHIO BOD O FEWN PUM MLYNEDD GYNTAF Y CYNLLUN STRATEGOL YMA A SUT YDYN NI AM WNEUD HYNNY?

- Hyrwyddo mynediad ehangach i addysg cyfrwng Cymraeg yn llwyddiannus drwy sicrhau bod lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg ar gael, wedi'u cydleoli ar safleoedd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg er mwyn helpu â chyfraddau pontio.
- Cynnal adolygiad o broses dderbyn ar-lein ein hysgolion gan ddefnyddio'r model saernïo dewis i gynorthwyo gyda'r niferoedd sy'n manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg, a hynny drwy sicrhau bod opsiynau o ran addysg cyfrwng Cymraeg ar gael i rieni/gwarcheidwaid wrth lenwi cais ar-lein eu plentyn.
- Gweithio'n rhagweithiol gydag ysgolion a rhieni/gwarcheidwaid i sicrhau bod eu plant yn aros mewn addysg cyfrwng Cymraeg ym mhob cyfnod allweddol.
- Cynnal dadansoddiad manwl o'r data i nodi lleoliadau lle mae cyfraddau pontio cymharol isel, gan sefydlu'r rhesymau dros roi'r gorau i barhau ag addysg cyfrwng Cymraeg a thargedu cymorth lle bo angen.
- Gwerthuso'r cyngor a'r arweiniad a gaiff eu darparu i deuluoedd ar wefannau ysgolion unigol ar fanteision addysg ddwyieithog a'r adnoddau a gaiff eu darparu i roi sicrwydd i rieni/gwarcheidwaid sy'n mynd i'r afael â materion sy'n peri pryder o bosib.
- Bydd yr awdurdod lleol yn parhau i weithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg i gryfhau trefniadau pontio, a hynny drwy ddarparu mentrau i gefnogi cyfraddau pontio rhwng pob cyfnod allweddol. Mae rhai o'r mentrau yma'n cynnwys:
 - Disgyblion ym mlwyddyn 6 yn treulio amser yn eu hysgol uwchradd newydd cyn dechrau eu tymor cyntaf yno.
 - Athrawon ysgolion uwchradd yn mynychu ysgolion cynradd i ddarparu sesiynau gweithgareddau.
 - Urdd Gobaith Cymru ("yr Urdd") yn cynorthwyo ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg i drefnu teithiau preswyl i Langrannog yn eu clwstwr ysgolion uwchradd.
 - Hwyluso cydweithio rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg a sefydliadau addysg bellach i sicrhau bod cwricwlwm cyfrwng Cymraeg ehangach ar gael ar gyfer cyfnod allweddol 5 er mwyn helpu cadw disgyblion.

BLE RYDYN NI'N DISGWYL BOD AR DDIWEDD EIN CYNLLUN STRATEGOL?

- Buddsoddiadau digonol mewn darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg a phrosiectau'r blynyddoedd cynnar i'w cwblhau dros gyfnod y Cynllun Strategol. Bydd hyn er mwyn helpu datblygu lleoliadau wedi'u cydleoli ar safleoedd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg i alluogi taith ddi-dor i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg.

- Parhau â mentrau i gefnogi cyfraddau pontio disgyblion rhwng pob cyfnod allweddol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, ar y cyd â phartneriaid megis yr Urdd a Menter Iaith.
- Sefydlu perthynas waith effeithiol rhwng yr awdurdod lleol, ysgolion a rhieni/gwarcheidwaid i sicrhau eu bod nhw'n gwybod pa gymorth sydd ar gael o ran y Gymraeg iddyn nhw a'u plant, a'u bod yn cael gwybod am unrhyw negeseuon allweddol ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg.
- Adolygu a gweithredu newidiadau i broses dderbyn ar-lein ysgolion ar ôl defnyddio'r model saernïo dewis, gan sicrhau bod y broses yn hawdd, yn ddeniadol, yn gymdeithasol ac yn amserol (fframwaith 'EAST').

Y prif bartneriaid sy'n gyfrifol am roi'r camau gweithredu uchod sy'n rhan o'r deilliant yma ar waith yw:

- Cyngor Rhondda Cynon Taf
- Ysgolion RhCT
- Llywodraeth Cymru
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De
- Mudiad Meithrin
- Urdd Gobaith Cymru



DEILLIANT 4: MWY O DDISGYBLION YN ASTUDIO AR GYFER CYMWYSTERAU WEDI'U HASESU YN Y GYMRAEG (Y PWNC) A PHYNCIAU TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD

Ar hyn o bryd mae pedair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys dwy ysgol uwchradd a dwy ysgol pob oed rhwng 3 a 19 oed.

Mae'r data'n dangos sefydlogrwydd yn y gymhareb rhwng disgyblion oedran ysgol uwchradd sy'n mynychu ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn ystod y pedair blynedd academaidd flaenorol, hyd at a chan gynnwys 2020-2021. Yn ystod yr un cyfnod, mae nifer y disgyblion blwyddyn 10 sy'n mynychu ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu. Yn seiliedig ar ddata CYBLD Chwefror 2022, mae gan ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg 26.6% o leoedd dros ben. Mae angen cynyddu nifer y lleoedd mewn rhai ysgolion ac o'r herwydd, mae'r prosiectau canlynol ar y gweill i fynd i'r afael â hyn:

- Ysgol Gyfun Rhydywaun – mae bloc newydd sbon yn cael ei adeiladu ar safle'r ysgol i ddarparu mwy o leoedd yn yr ysgol, gan gynnig 187 yn rhagor o leoedd i ddisgyblion. Mae disgwyl iddo agor ym mis Medi 2022.

Mae'r data yn y tabl sy'n dilyn yn amlinellu'r ganran o gofrestriadau disgyblion blwyddyn 11 ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf neu ail iaith) a'r rhai sydd heb gofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg mewn ysgolion uwchradd yn RhCT am y pedair blynedd academaidd flaenorol.

Cyfanswm y canran o gofrestriadau disgyblion Blwyddyn 11 ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith Gyntaf neu Ail iaith) yn mynychu ysgolion uwchradd am y pedair blynedd academaidd flaenorol

Categori	Blwyddyn Academaidd			
	2017–2018	2018–2019	2019–2020	2020–2021
Cymraeg (iaith gyntaf)	17%	17%	18%	18.4%
Cymraeg (ail iaith)	45%	59%	63%	62.1%

Mae'r data'n dangos cynnydd yng nghanran y disgyblion blwyddyn 11 sydd wedi cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg dros y pedair blynedd. Dros yr un cyfnod mae canran y disgyblion sydd heb gofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg wedi gostwng ar ganran uwch.

Cyfanswm y canran o gofrestriadau disgyblion Blwyddyn 12 a 13 ar gyfer Uwch Gyfrannol a Safon Uwch yn y Gymraeg (iaith Gyntaf neu Ail iaith) yn mynychu ysgolion uwchradd am y pedair blynedd academaidd flaenorol

Categori	Blwyddyn Academaidd			
	2017–2018	2018–2019	2019–2020	2020–2021
Cymraeg (iaith Gyntaf neu Ail iaith)	4.2%	3.7%	3.5%	3.7%

Mae'r data ar gyfer Uwch Gyfrannol a Safon Uwch Cymraeg (iaith gyntaf neu ail iaith) yn dangos gostyngiad bach yng nghanran cofrestriadau disgyblion dros y pedair blynedd academaidd ddiwethaf, fodd bynnag mae'r data mwyaf diweddar o flwyddyn academaidd 2020-2021 yn dangos cynnydd bach eto yn y ganran o gofrestrïadau disgyblion.

Mae Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortïwm Canolbarth y De ("y Consortïwm") wedi ymgysylltu'n sylweddol â phenaethiaid ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg ar draws y pum bwrdeistref sirol sy'n rhan o'r gwasanaeth. Yn ystod blwyddyn ariannol 2020-2021, rhoddodd y Consortïwm gyllid gwerth £30,000 tuag at Gyda'n Gilydd (Cymdeithas Prifathrawon Uwchradd Cyfrwng Cymraeg) i ddatblygu darpariaeth bwrpasol. Trwy gydweithio, bydd opsiynau ar gyfer creu cymwysterau mwy hygyrch, yn enwedig cymwysterau galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg, yn cael eu harchwilio.

Fe wnaeth yr Awdurdod Lleol dreialu Rhaglen Meincnodau Gyrfa Da Gatsby Llywodraeth Cymru mewn ysgolion uwchradd i ddatblygu ystod ehangach o lwybrau dysgu ar gyfer disgyblion rhwng 14 ac 19 oed. Fe wnaeth pob ysgol a gymerodd ran gydnabod effeithiau cadarnhaol ac amlinellu argymhellion a gafodd eu datblygu'n gynllun gweithredu. Gan adeiladu ar hyn, datblygodd yr Awdurdod Lleol Fodel Gatsby+, sy'n estyniad o'r rhaglen, i gefnogi disgyblion sy'n tangyflawni neu sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i barhau â'r gwaith am ddwy flynedd arall ym mhob ysgol uwchradd.

BLE RYDYN NI'N GOBEITHIO BOD O FEWN PUM MLYNEDD GYNTAF Y CYNLLUN STRATEGOL YMA?

- Parhau i ddatblygu llwybrau dysgu ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed trwy Raglen Meincnodau Gyrfa Da Gatsby a Model Gatsby+ i gefnogi pob disgybl oed uwchradd. Bydd y canolbwynt ar ddatblygu ystod ehangach o opsiynau i ddisgyblion wrth baratoi ar gyfer byd gwaith, hyfforddiant ac addysg bellach.
- Creu system sy'n cefnogi a hyfforddi Arweinwyr Gyrfaoedd mewn ysgolion uwchradd i hwyluso ymgorfforiad Meincnod Pedwar y rhaglen - Cysylltu Disgyblion y Cwricwlwm â Gyrfaoedd - i'r Cwricwlwm newydd i Gymru 2022.
- Sefydlu perthynas waith adeiladol gyda phob ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg a Choleg y Cymoedd i gynnal ac ehangu darpariaeth TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch trwy gyfrwng y Gymraeg. Un maes canolbwynt fydd archwilio'r prosiect E-sgol i ddarparu ystod ehangach o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg i ddisgyblion a gaiff eu cyflwyno trwy addysgeg rithwir.
- Cydweithio â'r Consortïwm ac ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg i fynd i'r afael â'r gwahaniaeth yn nifer y cymwysterau hygyrch, yn enwedig cymwysterau galwedigaethol, sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y Consortïwm yn parhau i weithio gyda grŵp Gyda'n Gilydd a CBAC i ddefnyddio cyllid ar gyfer creu cymwysterau mwy hygyrch, gan ddatblygu cymwysterau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg Lefel Tri yn bennaf.
- Dadansoddi canfyddiadau o'r CYBLD yn flynyddol i fonitro lleoedd dros ben ar draws yr holl ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg. Bydd ysgolion sydd â'r canran uchaf o leoedd dros ben yn cael eu blaenoriaethu a byddwn ni'n gweithio'n agos

gyda'r ysgolion, a phartneriaid allanol, i roi strategaethau marchnata a hyrwyddo ar waith i gynyddu/cadw nifer y disgyblion.

- Datblygu cynigion buddsoddi ar gyfer ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg drwy Raglen Band B Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru, lle mae angen twf o ran nifer y lleoedd neu waith gwella. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:
 - Ysgol Gyfun Rhydywaun – agor bloc newydd sbon ar safle'r ysgol i gynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol, gan gynnig 187 yn rhagor o leoedd i ddisgyblion.
 - Cwblhau proses ymgynghori statudol ar gyfer trefniadaeth ysgolion ar ysgol cyfrwng Cymraeg 3-19 newydd yn ardal Cwm Rhondda.
 - Ysgol Llanhari – ymgymryd â chymysgedd o waith adnewyddu a gwaith adeiladu o'r newydd, er mwyn gwella amgylcheddau addysgu a dysgu yn sylweddol.

BLE RYDYN NI'N DISGWYL BOD AR DDIWEDD EIN CYNLLUN STRATEGOL?

- Bydd y buddsoddiadau sydd wedi'u gwneud ar ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg dros gyfnod y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi'u cwblhau, sef Ysgol Gyfun Rhydywaun, Ysgol Llanhari ac ysgol pob oed newydd yn ardal Cwm Rhondda. Bydd y prosiectau yma'n darparu amgylcheddau addysgu a dysgu modern ar gyfer yr ysgolion, adeiladau gwell a lleoedd ychwanegol i ddisgyblion.
- Bydd perthynas waith gydweithredol yn cael ei sefydlu rhwng yr Awdurdod Lleol, ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a Choleg y Cymoedd i ehangu darpariaeth TGAU, UG a Safon Uwch trwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny drwy ehangu a hyrwyddo opsiynau megis cymwysterau E-sgol.
- Bydd ystod eang o lwybrau dysgu ar gyfer disgyblion 14 i 19 oed yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith trwy raglen Meincnodau Gyrfa Da Gatsby a Model Mentora Gatsby+, gyda chanolbwynt ar lwybrau dysgu cyfrwng Cymraeg.
- Rydyn ni'n disgwyl gweld canran y cymwysterau sy'n cael eu hastudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn cynyddu'n raddol bob blwyddyn.
- Rydyn ni'n disgwyl gweld cynnydd o ran hyder disgyblion a rhieni i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg.

Dyma'r prif bartneriaid sy'n gyfrifol am roi'r camau uchod sydd wedi'u cynnwys yn y deilliant yma ar waith:

- Cyngor Rhondda Cynon Taf
- Llywodraeth Cymru
- Coleg y Cymoedd
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De
- Ysgolion RhCT.

DEILLIANT 5: MWY O GYFLEOEDD I DDISGYBLION DDEFNYDDIO'R GYMRAEG MEWN CYD-DESTUNAU GWAHANOL YN YR YSGOL

Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae ystod o fentrau wedi'u rhoi ar waith i hyrwyddo a chynyddu defnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ac mewn cyd-destunau cymdeithasol. Nod y mentrau yma yw ymgorffori arferion cadarnhaol tuag at yr iaith trwy gynllunio pwrpasol a hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith disgyblion. Mewn partneriaeth â'r Consortiwm a'r Urdd, mae'r mentrau canlynol yn cael eu hyrwyddo:

- Siarter Iaith – yn cael ei roi ar waith ym mhob ysgol cyfrwng Cymraeg i ddatblygu defnydd disgyblion o'r iaith. Ar hyn o bryd, mae pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg wedi ennill y wobwr efydd, tra bod wyth wedi ennill y wobwr arian. Mae'r pedair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd yn gweithio tuag at ennill y wobwr efydd.
- Cymraeg Campus – sy'n cyfateb i'r Siarter Iaith ac sydd wedi'i roi ar waith mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg. Hyd yma, mae wyth ysgol wedi ennill y wobwr efydd. Mae dwy ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yn rhan o gynllun peilot ar hyn o bryd, ac os bydd yn llwyddiannus bydd hwn yn cael ei roi ar waith ym mhob ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg.
- Cymraeg Bob Dydd – menter i gefnogi ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg gyda defnydd anffurfiol o'r iaith a chyfleoedd dysgu dwys trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cyhoeddi pecyn cymorth ar gyfer ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg i wreiddio defnydd disgyblion o'r iaith ac i ddatblygu gweithgareddau i annog defnydd anffurfiol o'r iaith.

Mae Carfan Gwasanaethau Diwylliannol yr Awdurdod Lleol yn cyflogi swyddogion y mae eu sgiliau, eu harbenigedd a'u gwybodaeth yn cefnogi datblygiad cyfleoedd mewn lleoliadau yn y gymuned i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. Mae hyn yn cynnwys:

- Cyflwyno darn theatr mewn theatr ar gyfer disgyblion y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol dau.
- Cymryd rhan mewn gweithdy'r celfyddydau perfformio yng Nghanolfan Dysgu Gydol Oes Ysgol Garth Olwg ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol Dau, Tri a Phedwar.
- Cyd-gynhyrchu a chyflwyno darn theatr ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol tri a phedwar.

Mae Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid yr Awdurdod Lleol (YEPS) yn cyflogi swyddogion ymgysylltu sy'n siarad Cymraeg, ac sydd ym mhob ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn rhoi ystod o weithgareddau i ddisgyblion ddefnyddio'r

Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau a normaleiddio ac annog defnydd o'r iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Caiff y gweithgareddau hyn eu darparu'n anffurfiol mewn lleoliadau cymunedol ac maen nhw'n cynnwys y canlynol:

- Cynnig 'gweithgareddau cadarnhaol' ar ôl i'r diwrnod ysgol ddod i ben, bum niwrnod yr wythnos a thrwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cynnig darpariaeth estynedig trwy gyfrwng y Gymraeg, ddwy noson yr wythnos. Mae'r ddarpariaeth yma'n cynnwys addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, cyngor ac arweiniad a chyfleoedd hamdden, chwaraeon a diwylliannol.

Yn ogystal â hyn, mae gan y garfan YEPS Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Menter Iaith i arwain ar y gwaith o ddatblygu Fforymau Ieuencid y Gymraeg ym mhob ysgol uwchradd.

Mae'r Urdd yn darparu ystod o gyfleoedd i bobl ifainc dros 17 oed ennill cyflogaeth, profiad ymarferol a chymwysterau proffesiynol. Gan weithio ochr yn ochr â sefydliadau eraill, maen nhw wedi datblygu prentisiaethau cyfrwng Cymraeg o fewn meysydd gweithgareddau awyr agored, chwaraeon, gwasanaethau ieuencid a gwasanaethau cymuned.

Rhaglen bartneriaeth rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Adran Gwaith a Phensiynau yw Cymunedau am Waith. Mae'n cynnig gweithgareddau cyn-gyflogaeth sy'n cyflwyno Cymraeg sgysiol i rieni/gwarcheidwaid a'r gymuned ehangach a chwrs 'llwybr i gyflogaeth' sy'n cynnwys sgiliau sylfaenol y Gymraeg a all arwain at gwrs Cymraeg i Oedolion.

BLE RYDYN NI'N GOBEITHIO BOD O FEWN PUM MLYNEDD Y CYNLLUN STRATEGOL YMA?

- Pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg i fod wedi ennill gwobr arian y Siarter Iaith ac yn gweithio tuag at ennill y wobr aur.
- Pob ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg i fod wedi ennill gwobr efydd y Siarter Iaith ac yn gweithio tuag at ennill y wobr arian.
- Pob ysgol gynradd cyfrwng Saesneg i fod wedi ennill gwobr efydd Cymraeg Campus ac yn gweithio tuag at ennill y wobr arian.
- Adolygu a gwerthuso cynllun peilot Cymraeg Campus mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg. Os bydd yn llwyddiannus bydd hyn yn cael ei weithredu ym mhob ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg.
- Bydd carfan Gwasanaethau Diwylliannol yr Awdurdod Lleol a charfan YEPS yn parhau i ddatblygu cyfleoedd pellach i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau mewn lleoliadau cymunedol/tu allan i'r ystafell ddosbarth.
- O dan y CLG, bydd carfan YEPS yn gweithio ar y cyd â Menter Iaith i sicrhau bod Fforwm Ieuencid y Gymraeg yn cael ei ddatblygu ym mhob ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg.
- Bydd cysylltiadau â'r Urdd yn cael eu cryfhau i ddarparu ystod eang o weithgareddau i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau ym mhob ysgol cyfrwng Cymraeg.

- Yn ogystal â hyn, bydd y garfan YEPS, Menter Iaith a'r Urdd yn parhau i gwrdd yn rheolaidd i greu ar y cyd gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau.
- Rhoi ymgyrch farchnata ar waith ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Cymru, sy'n cael ei chynnal yn RhCT yn 2024. Bydd yr ymgyrch yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ar gyfer disgyblion a'r gymuned ehangach trwy ddefnyddio'r iaith mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol a thu hwnt.

BLE RYDYN NI'N DISGWYL BOD AR DDIWEDD EIN CYNLLUN STRATEGOL?

- Mwy o gyfleoedd ar gael i ddisgyblion gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol, cymdeithasol a chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg i wella'u hyder ac i gadw rhuglder yn yr iaith.
- Perthnasau gwaith cadarn wedi'u sefydlu rhwng Gwasanaethau Diwylliannol, YEPS, Menter Iaith a'r Urdd i rannu gwybodaeth, cyfleoedd ac arferion gorau.

Dyma'r prif bartneriaid sy'n gyfrifol am weithredu'r camau uchod sydd wedi'u cynnwys yn y deilliant yma:

- Cyngor Rhondda Cynon Taf
- Gwasanaethau Diwylliannol
- YEPS
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De
- Menter Iaith
- Urdd Gobaith Cymru
- Ysgolion RhCT



DEILLIANT 6: CYNNYDD YN NARPARIAETH ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG AR GYFER DISGYBLION AG ADY (YN UNOL Â'R DYLETSWYDDAU WEDI'U PENNU GAN DDEDDF ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A'R TRIBIWNLYS ADDYSG (CYMRU) 2018)

Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD

Ers i Ddeddf ALNET 2018 gael ei chyflwyno, mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol adolygu'n rheolaidd y trefniadau ar gyfer cefnogi disgyblion ag ADY rhwng 0 a 25 oed. Mae modd i ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd fanteisio ar y Cyllid Anghenion Ychwanegol i sicrhau bod gan ysgolion ddarpariaeth gadarn a chynhwysol ar gyfer disgyblion ag ADY. Ar gyfer disgyblion sy'n cael anawsterau o ran ymdopi mewn addysg brif ffrwd, caiff darpariaethau arbenigol eu darparu, sydd wedi'u lleoli ledled y Fwrdeistref Sirol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- 44 o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu
- 2 Uned Atgyfeirio Disgyblion (UAD)
- 4 Ysgol Arbennig.

Mae data CYBLD ar gyfer 2022 yn dangos bod disgyblion cyfrwng Cymraeg yn cyfrif am 18.62% o gyfanswm y boblogaeth ysgol yn RhCT, ac am 11.7% o'r garfan gyffredinol o ddisgyblion ag ADY. Ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg ag ADY sy'n cael anawsterau sylweddol wrth gael mynediad at ddysgu o fewn lleoliad prif ffrwd, caiff cymorth ei ddarparu trwy fodel cyflawni cynhwysol gan garfan beripatetig arbenigol - Carfan Anghenion Cymhleth Cymraeg, sy'n cynnwys athro arbenigol cyfrwng Cymraeg a dau gynorthwydd cynnal dysgu. Mae 13 o ddisgyblion, yn amrywio o Flwyddyn 1 i Flwyddyn 11 y Cwricwlwm Cenedlaethol, yn defnyddio'r ddarpariaeth yma ar hyn o bryd ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae'r nifer yma wedi aros yn gymharol sefydlog dros y pum mlynedd ddiwethaf. O ddadansoddi'r data, mae'n awgrymu'r oedd cynnydd y disgyblion a oedd yn cael eu cefnogi gan y Garfan yn debyg i gynnydd eu cyfoedion mewn lleoliadau ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Saesneg cyfatebol. Fodd bynnag, dros y tair blynedd ddiwethaf, mae 5 o ddisgyblion wedi gadael addysg cyfrwng Cymraeg i gael mynediad i ddarpariaeth dosbarth cynnal dysgu arbenigol.

Dros y tair blynedd academaidd ddiwethaf rhwng 2019–2020 a 2021–2022 (hyd at 8 Mehefin 2022), roedd 11% o'r atgyfeiriadau a ddaeth i law'r Gwasanaethau Cynhwysiant a Mynediad yn ymwneud â disgyblion cyfrwng Cymraeg. Mae data'n dangos mai'r tri maes AAA/ADY gyda'r nifer uchaf o atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Cynnal Dysgu oedd Anawsterau Dysgu Penodol, Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol (ACEY) ac Anhwylder Sbectrwum Awtistiaeth (ASA) yn y drefn honno, er mai atgyfeiriadau ar gyfer ASA sydd wedi cynyddu fwyaf yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Yng ngoleuni gofynion y Ddeddf ac yn sgil cynnydd yn y ceisiadau am leoliadau ar gyfer disgyblion ag ACEY, roedd angen gwella darpariaeth ein Dosbarthiadau Cynnal Dysgu. Yn dilyn cyfnod ymgynghori llwyddiannus, cafodd y cynnig ar gyfer Dosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Garth Olwg ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol tri a phedwar ag ADY sylweddol ei gymeradwyo, a bydd yn agor ym mis Medi 2022.

Yn rhan o strategaeth Awdurdod Lleol cyfan i wella'r continwmm o ddarpariaeth ACEY ar draws ei ysgolion prif ffrwd, cafodd cyllid ei ddyfarnu i ddwy ysgol cyfrwng Cymraeg i sefydlu darpariaethau ACEY mewn ysgolion ar gyfer disgyblion yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 ag ACEY a/neu anghenion lles sylweddol, yn rhan o beilot dwy flynedd. Elfen allweddol o'r peilot yw cefnogi ysgolion i sefydlu darpariaeth dysgu ychwanegol effeithiol a chynaliadwy yn yr ysgol.

Roedd y Cynllun Trawsnewid ALN Rhanbarthol yn tynnu sylw at gamau gweithredu i ddatblygu dull rhanbarthol i gefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg er mwyn gwella cysondeb a rhannu arferion gorau.

BLE RYDYN NI'N DISGWYL BOD O FEWN PUM MLYNEDD Y CYNLLUN STRATEGOL YMA?

- Parhau i adolygu digonolrwydd y ddarpariaeth dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg yn ein hardal ar gyfer disgyblion ag ADY er mwyn ystyried i ba raddau y mae'r trefniadau'n ddigonol i ddiwallu anghenion disgyblion ac i nodi unrhyw gamau gweithredu yn unol ag anghenion sy'n dod i'r amlwg neu fylchau yn y ddarpariaeth.
- Adolygu a monitro maint a gallu'r gweithlu sydd ar gael trwy archwiliadau gweithlu arbenigol. Os bydd y galw am ddarpariaeth yn cynyddu, bydd angen cynllunio'r gweithlu i sicrhau bod gyda ni niferoedd digonol i gefnogi darpariaeth ADY.
- Darpariaeth dosbarth cynnal dysgu cyfrwng Cymraeg i'w sefydlu a'i defnyddio gan ddisgyblion cyfnod allweddol tri a phedwar ag ADY yn Ysgol Garth Olwg ym mis Medi 2022.
- Ymgynghori ar sefydlu darpariaeth ADY cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol dau cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhydfelen, sydd i'w hagor o fewn pum mlynedd gyntaf y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.
- Cydweithio â'r Consortiwm i sicrhau bod darpariaeth ADY effeithiol ar gael i ddisgyblion mewn addysg brif ffrwd ac ysgolion/dosbarthiadau arbennig.
- Datblygiad parhaus darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg fel rhan o brosesau cynllunio gweithredu, monitro, gwerthuso ac adolygu Gwasanaethau Mynediad a Chynhwysiant yr Awdurdod Lleol.
- Cynnal adolygiad o Wasanaethau Mynediad a Chynhwysiant i sicrhau bod gan bob maes gwasanaeth swyddi 'Cymraeg yn hanfodol' yn ei strwythur.

BLE RYDYN NI'N DISGWYL BOD AR DDIWEDD EIN CYNLLUN STRATEGOL?

- Drwy gydweithio â swyddogion perthnasol yr Awdurdod Lleol a'r Consortiwm, bydd gyda ni brosesau cadarn ar waith i sicrhau bod darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael i unrhyw ddisgybl sy'n gofyn amdani. Yr hyn sy'n allweddol i hyn yw sicrhau bod gweithlu o faint a gallu digonol gyda ni i gwrdd â'r newid yn y galw am ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf.

- Creu mwy o ddarpariaeth dosbarth cynnal dysgu cyfrwng Cymraeg yn ein hysgolion i gefnogi disgyblion ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Dyma'r prif bartneriaid sy'n gyfrifol am weithredu'r camau uchod sydd wedi'u cynnwys yn y deiliant yma:

- Cyngor Rhondda Cynon Taf
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De
- Ysgolion RhCT
- Y Bwrdd Iechyd Lleol



DEILLIANT 7: CYNYDDU NIFER Y STAFF ADDYSGU SY'N GALLU ADDYSGU'R GYMRAEG (Y PWNC) AC ADDYSGU TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD

O fis Hydref 2021 ymlaen, mae data o Gyfrifiad Blynyddol Gweithlu Ysgolion (CBGY) yn dangos mai 5,544 yw nifer y staff mewn ysgolion sy'n cael eu cyflogi drwy'r Awdurdod Lleol. O'r ffigwr yma, mae gan 19.3% (1,071 o bobl) sgiliau Cymraeg rhugl neu weddol rugl (lefelau tri, pedwar a phump). Mae'r data'n dangos bod 21.7% o'r gweithlu ysgolion sy'n cael eu cyflogi gan yr Awdurdod Lleol yn addysgu/gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg, tra bod 6.9% yn gallu addysgu/gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg ond ddim yn gwneud hynny yn eu swydd bresennol.

Er mwyn cyrraedd ein targedau, mae angen dull cydweithredol o gynllunio'r gweithlu. Bydd y gwaith yma'n cael ei lywio gan Lywodraeth Cymru a'r Consortiwm sy'n rhoi nifer o strategaethau ar waith megis:

- Rhaglen o weithgareddau gyda'r nod o gynyddu nifer y disgyblion oedran ysgol uwchradd sy'n cael eu hasesu ar gyfer cymwysterau Cymraeg Iaith Gyntaf ac Ail Iaith Uwch Gyfrannol a Safon Uwch.
- Hyrwyddo llwybrau i addysgu'r Gymraeg fel pwnc, trwy gynlluniau fel y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg.
- Cynnal rhaglenni peilot ar gyfer cyrsiau pontio i athrawon â Statws Athro Cymwysedig sy'n addysgu mewn ysgolion cynradd i dderbyn hyfforddiant a chymorth ychwanegol i addysgu mewn ysgolion uwchradd.
- Gweithio'n agos gyda Chyngor y Gweithlu Addysg a darparwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon i gyflwyno rhaglenni achredig Addysg Gychwynnol i Athrawon ac i ategu a chefnogi recriwtio ledled Cymru.
- Dyrannu cyllid penodol i gonsortia addysg rhanbarthol i ddatblygu llwybrau amgen i addysgu.
- Gweithredu ymgyrch farchnata ddigidol sy'n marchnata'n benodol i grwpiau o ddarpar athrawon.

Mae'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg yn cael ei gynnig ar lefelau rhuglder iaith amrywiol, gan roi cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus arbenigol. Nod y Cynllun yma yw cynyddu nifer y gweithlu ysgolion sy'n gallu addysgu'n ddwyieithog neu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Consortiwm yn darparu dysgu proffesiynol parhaus, rhwydweithio a chyfleoedd i rannu arferion gorau gyda'r gweithlu ysgolion sy'n rhan o'r Consortiwm.

Mae'r tabl sy'n dilyn yn dangos nifer y gweithlu ysgolion sy'n cael eu cyflogi gan yr Awdurdod Lleol sydd wedi cymryd rhan yn y cynllun a'i gyflawni dros y pedair blynedd academaidd flaenorol.

Nifer y gweithlu ysgolion sy'n cael eu cyflogi gan yr Awdurdod Lleol ac sydd wedi cymryd rhan yn y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg ac wedi'i gyflawni	
Blwyddyn Academaidd	Nifer
2017–2018	1
2018–2019	3
2019–2020	5
2020–2021	3*
*Yn ogystal â'r nifer yma, cafodd lleoedd eu cynnig i ddau athro ysgol a chynorthwy-ydd cynnal dysgu ond penderfynon nhw ohirio tan 2021/2022 oherwydd pandemig Covid-19.	

Ar hyn o bryd mae dwy ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg (Ysgol Garth Olwg ac Ysgol Gyfun Rhydywaun) yn cynnal y rhaglen Addysg Gychwynnol i Athrawon, ar y cyd â dwy ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg trawsffiniol ac mewn partneriaeth â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae'r rhaglen yn cefnogi myfyrwyr TAR gan ddarparu lleoliadau i fyfyrwyr o fewn un o'r ysgolion perthynol. Yn ystod blwyddyn academaidd 2020–2021, cafodd y rhaglen ei chyrru gan bymtheg o fyfyrwyr.

BLE RYDYN NI'N DISGWYL BOD O FEWN PUM MLYNEDD GYNTAF Y CYNLLUN STRATEGOL YMA?

- Cynnal dadansoddiad rheolaidd o'r holl ffynonellau data i ddeall tueddiadau yn y galw am athrawon cyfrwng Cymraeg trwy ragamcanu cyfraddau pontio blynyddol disgyblion o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd, gan edrych ar dueddiadau o ran athrawon yn symud i swyddi arwain, yn symud ysgol/gadael swydd, ac yn ymddeol.
- Cydweithio â Mudiad Meithrin i sicrhau bod digon o weithlu i ddarparu trochi cynnar yn y Gymraeg mewn lleoliadau gofal plant a blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg.
- Dadansoddi'r CYBLD a'r CBGY yn flynyddol i fonitro cymhwysedd ieithyddol a nodi unrhyw anghenion dysgu proffesiynol sydd gan y gweithlu ysgolion.
- Hyrwyddo'r rhaglenni hyfforddi lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sydd ar gael i gynorthwyo'r gweithlu ysgolion gyda dilyniant iaith.
- Bydd dau ymarferwr ychwanegol o fewn Rhondda Cynon Taf yn mynychu Cynllun Sabothol Cymraeg Mewn Blwyddyn 2022–2023. Byddwn ni'n gweithio ar y cyd â'r Consortiwm yn flynyddol i gyflwyno'r rhaglen yma.
- Cydweithio â'r Consortiwm i gynyddu gallu arweinyddiaeth ar bob lefel yn y sector addysg cyfrwng Cymraeg drwy ddatblygu a hyrwyddo rhaglenni fel y Rhaglen Darpar Brifathrawon a'r Rhaglen Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth. Mae data cyfredol yn dangos bod 18 o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn yr Awdurdod Lleol yn cymryd rhan yn y ddwy raglen, ac rydyn ni'n gobeithio cynyddu'r nifer yma.
- Yr Awdurdod Lleol a'r Urdd yn gweithio mewn partneriaeth i gryfhau cysylltiadau i greu llwybrau amgen, ychwanegol i ddisgyblion trwy ddatblygu prentisiaethau

cyfrwng Cymraeg. Byddwn ni'n archwilio sut y byddai modd defnyddio ein Rhaglen Brentisiaethau i ddarparu cyfleoedd i brentisiaid yn rhan o'r gweithlu ysgolion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

- Parhau i gefnogi cyflwyno'r rhaglen Addysg Gychwynnol i Athrawon ar y cyd â'r ysgolion uwchradd sydd wedi creu partneriaeth â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd. Bydd cymorth hefyd yn cael ei roi i'r gweithlu ysgolion presennol i symud ymlaen drwy gwblhau eu rhaglen Addysg Gychwynnol i Athrawon.
- Bydd Carfan Addysg i Oedolion yr Awdurdod Lleol yn parhau i ymchwilio i lwybrau dysgu proffesiynol amgen.

BLE RYDYN NI'N DISGWYL BOD AR DDIWEDD EIN CYNLLUN STRATEGOL?

Bydd gwaith a mentrau sydd wedi'u sefydlu a'u cyflawni yn ystod y pum mlynedd gyntaf yn cael eu cryfhau a byddan nhw'n parhau i gael eu cyflwyno. Er mwyn cyrraedd ein targed i gynyddu canran y disgyblion blwyddyn 1 mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2032, mae cydweithio yn hanfodol i sicrhau bod gyda ni weithlu ysgolion o faint a gallu digonol.

Mae ein system addysg yn ddibynnol ar ei gweithlu, a rhaid inni barhau i weithio'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i greu gweithlu â sgiliau ieithyddol cadarn.

Dyma'r prif bartneriaid sy'n gyfrifol am weithredu'r camau uchod sydd wedi'u cynnwys yn y deilliant yma:

- Cyngor Rhondda Cynon Taf
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De
- Mudiad Meithrin
- Urdd Gobaith Cymru

ATODIAD UN: METHODOLEG AR GYFER GOSOD TARGEDAU

Mae Cymraeg 2050 yn nodi'r targed tymor hir cyffredinol o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Er mwyn cyflawni'r nod yma, mae'r strategaeth yn nodi trywydd tymor hir sy'n cynnwys targedau cerrig milltir. Mae'r rhain wedi'u nodi'n gamau fesul deng mlynedd. Mae targedau wedi'u gosod ar gyfer pob Awdurdod Lleol - wedi'u cyfrifo gan Lywodraeth Cymru - er mwyn sefydlu llwybr clir i gyrraedd y targed cenedlaethol.

Mae'r fethodoleg sydd wedi'i rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru yn defnyddio data gwaelodlin o CYBLD 2019, yn fwy penodol, nifer y disgyblion blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r data o bob Awdurdod Lleol wedi cael ei gymharu, ac mae Awdurdodau Lleol wedi'u grwpio gyda'i gilydd yn seiliedig ar hyn a ffactorau eraill gan gynnwys natur ieithyddol a modelau darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg sydd wedi'u mabwysiadu gan bob Awdurdod. Caiff ei ystyried bod y fethodoleg yma'n deg, gan ei bod yn cydnabod y gwahanol heriau sy'n wynebu pob Awdurdod Lleol.

Mae gyda phob grŵp darged penodol i gynyddu canran y disgyblion blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg gan ystod benodol o bwyntiau canran. Mae CBS Rhondda Cynon Taf yng Ngrŵp Tri fel y dangosir yn y tabl a ganlyn:

Targedau Awdurdodau Lleol Grŵp Tri						
ALI	Gwaelodlin 2019 (CYBLD 2019)		Targed 2032			
			Ystod Is		Ystod Uwch	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	359	17.9%	520	26.0%	600	30.0%
Cyngor Dinas Caerdydd	702	16.9%	1,035	25.0%	1,200	29.0%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	100	14.0%	155	22.0%	185	26.0%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	506	19.1%	720	27.0%	825	31.0%
Cyngor Abertawe	390	15.4%	590	23.0%	695	27.0%
Cyngor Bro Morgannwg	221	14.3%	345	22.0%	405	26.0%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	235	15.0%	360	23.0%	425	27.0%

Yn ôl data o CYBLD 2019, roedd rhwng 14% a 19% o ddisgyblion blwyddyn 1 yn yr Awdurdodau Lleol sy'n rhan o Grŵp Tri, yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Yng Ngrŵp Tri, mae'r ystod pwyntiau canran rhwng 8% a 12%. Mae'r ystod wedi'i gosod ar gyfer pob grŵp fel bod y targed cenedlaethol o 30% yn cael ei gyflawni yn ystod oes y Cynllun Strategol yma.

Mae data a gymerwyd o CYBLD Chwefror 2022 yn dangos cynnydd yn nifer y disgyblion blwyddyn 1 mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf i 524 o ddisgyblion. Er bod y ffigurau yn y tablau uchod yn is, rydyn ni'n parhau i weithio i gyrraedd yr un targed o gynydd rhwng 8% a 12%. O'r herwydd, mae ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn

Addysg yn adlewyrchu ein targed i gynyddu nifer y disgyblion blwyddyn 1 o 10% i gwrdd â gweledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru o 30% o ddisgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2032.

ATODIAD DAU: PROFFIL IEITHYDDOL Y FWRDEISTREF SIROL

Bob deng mlynedd mae'r DU yn neilltuo un diwrnod ar gyfer y Cyfrifiad, sy'n cyfri'r holl bobl ac aelwydydd yma. Mae'r Cyfrifiad yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth am nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.

O'r 225,555 o drigolion a oedd yn byw yn y Fwrdeistref Sirol, nododd Cyfrifiad 2011 fod 12.3% (27,779) yn gallu siarad Cymraeg. Doedd yr 87.7% (197,776) a oedd yn weddill ddim yn gallu siarad Cymraeg. Mae modd cymharu hyn â ffigurau Cymru gyfan. O'r 2,955,841 o drigolion a oedd yn byw yng Nghymru, roedd 19% (562,016) yn gallu siarad Cymraeg. Doedd yr 81% (2,393,825) a oedd yn weddill ddim yn gallu siarad Cymraeg.

Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn casglu gwybodaeth ynghyd am allu'r rheiny sy'n ymateb i siarad Cymraeg ac yn cynnwys cwestiwn ar ba mor aml y mae pobl yn siarad Cymraeg. Mae'n cael ei ddiweddarau bob chwarter, felly mae'n ffynhonnell fwy cyfredol na'r Cyfrifiad. Ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2021, nododd yr arolwg fod 19.6% o'r rheiny a ymatebodd sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol wedi dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn o'i gymharu â chanran Cymru gyfan o 25.9% o'r rheiny a ymatebodd. Mae modd dadansoddi hyn ymhellach trwy'r data yn y tabl isod.

Sgiliau Cymraeg Trigolion - (%)		
	Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Cymru
Yn gallu darllen Cymraeg	19.6%	25.9%
Yn gallu ysgrifennu Cymraeg	18.1%	23.7%
Yn gallu deall Cymraeg ar lafar	24.1%	33.6%

Mae'r data'n dangos bod canrannau Cymru gyfan ym mhob maes sgiliau'r Gymraeg yn sylweddol uwch na chanrannau'r Fwrdeistref Sirol. Serch hynny, mae'r data cyfredol yn dangos cynnydd yn nifer y trigolion sy'n gallu darllen, ysgrifennu a deall Cymraeg ar lafar ers y Cyfrifiad diwethaf yn 2011.

Wrth eu holi am ba mor aml yr oedden nhw'n siarad Cymraeg, mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o ymatebion y rheiny a ymatebodd sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol o'u cymharu ag ymatebion Cymru gyfan.

Amllder Siarad Cymraeg Trigolion – (%)		
	Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Cymru
Yn siarad Cymraeg bob dydd	8.1%	15.4%
Yn siarad Cymraeg bob wythnos	5.0%	5.1%
Yn ei defnyddio'n llai aml	7.0%	5.6%

Mae'r data'n dangos bod canran y rheiny a ymatebodd sy'n siarad Cymraeg bob dydd yn llawer is ar gyfer y Fwrdeistref Sirol na chanran Cymru gyfan.

Mae'r Arolwg Defnydd Iaith ar gyfer 2013 i 2015 yn cynnwys gwybodaeth fanwl am ruglder siaradwyr Cymraeg a'u defnydd o'r Gymraeg mewn ystod o leoliadau. Wrth edrych lle dysgodd y rheiny a ymatebodd sy'n byw yng Nghymru siarad Cymraeg, dysgodd y mwyafrif, sef 45%, siarad Cymraeg gartref. Dysgodd 26% siarad Cymraeg yn yr ysgol feithrin a'r ysgol gynradd rhwng 2 a 10 oed a dysgodd 14% siarad Cymraeg yn yr ysgol uwchradd yn 11 oed a hŷn. Dysgodd y 2% arall siarad Cymraeg mewn lleoliadau eraill, gan gynnwys ar gyrsiau 'Cymraeg i Oedolion'.

ATODIAD TRI: DATA GWAELODLIN

DEILLIANT 1: MWY O DDISGYBLION MEITHRIN / TAIR OED YN DERBYN EU HADDYSG TRWY GYFRWNG Y CYMRAEG

Mae'r data yn y tabl isod yn deillio o Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant y Cyngor am y cyfnod rhwng 2022 a 2027. Mae'n dangos cyfanswm nifer y lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg a Saesneg cofrestredig ac anghofrestredig ochr yn ochr â nifer y lleoedd sydd ar gael ledled y Fwrdeistref Sirol.

Cyfanswm nifer y lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg a Saesneg sydd ar gael ledled y Fwrdeistref Sirol					
Math o ofal plant		Cyfanswm y Lleoliadau Cofrestredig	Cyfanswm y Lleoedd	Cyfanswm y Lleoliadau Anghofrestredig	Cyfanswm y Lleoedd
Gwarchodwyr plant		96	778	0	0
Gofal Oriau Dydd	Gofal Diwrnod Llawn	56	2,030	0	0
	Gofal sesiynol diwrnod llawn	25	75	7	25
	Crèches	0	0	0	0
	Gofal y tu allan i oriau'r ysgol	10	357	6	0
	Darpariaeth Gofal Chwarae Mynediad Agored	5	345	3	0
	Nani	2	0	0	0
Cyfanswm		194	3,585	16	25

Mae'r data yn y tabl isod, sy'n deillio eto o Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant y Cyngor am y cyfnod rhwng 2022 a 2027, yn dangos cyfanswm nifer y lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg cofrestredig ac anghofrestredig (cyfrwng Cymraeg a dwyieithog) ochr yn ochr â nifer y lleoedd sydd ar gael ledled y Fwrdeistref Sirol

Cyfanswm nifer y lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ledled y Fwrdeistref Sirol					
Math o ofal plant		Cyfanswm y Lleoliadau Cofrestredig	Cyfanswm y Lleoedd	Cyfanswm y Lleoliadau Anghofrestredig	Cyfanswm y Lleoedd
Gwarchodwyr plant		1	25	0	0
Gofal Oriau Dydd	Gofal Diwrnod Llawn	10	599	0	0
	Gofal sesiynol diwrnod llawn	5	177	0	0
	Crèches	0	0	0	0
	Gofal y tu allan i oriau'r ysgol	3	144	5	Ddim yn gwybod
Cyfanswm		26	771	5	0

O dan fodel comisiynu newydd y Rhaglen Dechrau'n Deg, dydy nifer penodol o leoedd cyfrwng Cymraeg ddim yn cael eu comisiynu mwyach. Mae'r garfan Dechrau'n Deg yn gweithio'n agos gyda lleoliadau gofal plant i brynu lleoedd yn ôl yr angen. Mae'r tabl yn y data a ganlyn yn dangos nifer y lleoliadau a gomisiynwyd, wedi'u rhannu yn ôl yr iaith a ddefnyddir. Mae'r opsiwn Cymraeg a Saesneg yn golygu bod Dechrau'n Deg yn cael ei ddarparu, 1 sesiwn y dydd yn y ddwy iaith. Fel y cyfryw, ar hyn o bryd mae 16 o leoliadau ar gael gyda ni i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y newidiadau i broses gomisiynu Dechrau'n Deg yn golygu bod rhagor o leoedd gofal plant Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg ar gael i'r teuluoedd hynny sy'n ei ddewis.

Nifer y Lleoliadau Gofal Plant Dechrau'n Deg a Gomisiynwyd wedi'u Rhannu yn ôl yr Iaith a Ddefnyddir	
Iaith a Ddefnyddir	Nifer y Lleoliadau
Cymraeg	9
Saesneg	27
Cymraeg a Saesneg	7
Cyfanswm	43

Mae'r data diweddaraf gan Lywodraeth Cymru wedi'i gynnwys yn y tabl isod ac mae'n amlinellu cyfanswm nifer y plant sy'n mynychu Cylchoedd Meithrin yn ystod y pum mlynedd academiaidd flaenorol hyd at a chan gynnwys 2020–21.

Cyfanswm nifer y plant sy'n mynychu Cylchoedd Meithrin yn ystod y pum mlynedd academiaidd flaenorol					
Lleoliadau	Blwyddyn Academiaidd				
	2016–2017	2017–2018	2018–2019	2019–2020	2020–2021
Nifer y Lleoliadau	24	25	23	19	18
Nifer y plant yn mynychu	813	804	860	669	731

Mae'r data yn y tabl isod yn deillio o'r CYBLD ac mae'n amlinellu nifer y disgyblion cyn-feithrin (llawn amser a rhan amser) a meithrin (llawn amser a rhan amser) sy'n mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg am y tair blynedd academaidd flaenorol hyd at a chan gynnwys 2021–2022.

Cyfanswm nifer y disgyblion cyn-feithrin (llawn amser a rhan amser) a meithrin (llawn amser a rhan amser) sy'n mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg am y tair blynedd academaidd flaenorol			
Grŵp Blwyddyn	Blwyddyn Academaidd		
	2019–2020	2020–2021	2021–2022
Cyn-feithrin	27	26	18
Cyn-feithrin (rhan-amser)	29	39	32
Meithrin	406	437	366
Meithrin (rhan-amser)	130	95	145
Cyfanswm	592	597	561

DEILLIANT 2: MWY O DDISGYBLION DOSBARTH DERBYN / PUM OED YN DERBYN EU HADDYSG TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Mae'r data yn y tabl isod yn amlinellu cyfanswm nifer y disgyblion oedran ysgol gynradd sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg ledled y Fwrdeistref Sirol yn ystod y pedair blynedd academaidd flaenorol hyd at a chan gynnwys 2021–2022. Mae'r wybodaeth yn deillio o'r CYBLD:

Cyfanswm nifer y disgyblion oedran ysgol gynradd sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn ystod y pedair blynedd academaidd flaenorol								
Categori	Blwyddyn Academaidd							
	2018–2019		2019–2020		2020–2021		2021–2022	
Cyfanswm nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg	4,269	19%	4,220	19%	4,152	18.8%	4,097	18.9%
Cyfanswm nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg	18,153	81%	18,078	81%	17,894	81.2%	17,627	81.1%
Cyfanswm nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd	22,422		22,298		22,046		21,724	

Mae'r data yn y tabl isod yn deillio o'r CYBLD ac yn amlinellu cyfanswm nifer y disgyblion dosbarth Derbyn / pum oed sy'n mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg am y pedair blynedd academaidd flaenorol hyd at a chan gynnwys 2021–2022.

Cyfanswm nifer y disgyblion dosbarth Derbyn / pum oed sy'n mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg am y tair blynedd academiaidd flaenorol				
Grŵp Blwyddyn	Blwyddyn Academiaidd			
	2018–2019	2019–2020	2020–2021	2021–2022
Dosbarth Derbyn	517	565	528	532
Dosbarth Derbyn (rhan-amser)	1	0	0	0
Cyfanswm	518	565	528	532

DEILLIANT 3: MWY O BLANT YN PARHAU I WELLA EU SGILIAU IAITH GYMRAEG WRTH BONTIO O UN CYFNOD O'U HADDYSG STATUDOL I UN ARALL

Mae'r data diweddaraf gan Lywodraeth Cymru wedi'i gynnwys yn y tabl isod ac mae'n amlinellu cyfraddau pontio plant sy'n mynychu Cylchoedd Meithrin i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg dros y pum mlynedd academiaidd flaenorol.

Cyfraddau pontio plant sy'n mynychu Cylchoedd Meithrin i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg dros y pum mlynedd academiaidd flaenorol					
Lleoliadau	Blwyddyn Academiaidd				
	2016–2017	2017–2018	2018–2019	2019–2020	2020–2021
Canran Pontio i Ysgolion Cynradd Cyfrwng Cymraeg	68.9%	68%	70.5%	72.1%	72.4%

Mae'r data yn y tabl isod yn deillio o'r CYBLD ac mae'n amlinellu cyfraddau pontio disgyblion rhwng pob Cyfnod Allweddol ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg am y pedair blynedd academiaidd flaenorol hyd at a chan gynnwys 2021–2022.

Cyfraddau pontio disgyblion rhwng pob Cyfnod Allweddol ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg am y pedair blynedd academiaidd flaenorol				
Pontio	Blwyddyn Academiaidd			
	2018–2019	2019–2020	2020–2021	2021–2022
Y Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol Dau	97.4%	97.5%	96.1%	95.8%
Cyfnod Allweddol Dau i Gyfnod Allweddol Tri	97.3%	94%	94.7%	95.4%
Cyfnod Allweddol Tri i Gyfnod Allweddol Pedwar	98.2%	97.3%	98.7%	98.3%
Cyfnod Allweddol Pedwar i Gyfnod Allweddol Pump	53.5%	55.9%	48.5%	48.9%

DEILLIANT 4: MWY O DDISGYBLION YN ASTUDIO AR GYFER CYMWYSTERAU WEDI'U HASESU YN Y GYMRAEG (Y PWNC) A PHYNCIAU TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Mae'r data yn y tabl isod yn deillio o'r CYBLD ac mae'n amlinellu cyfanswm nifer y disgyblion oedran ysgol uwchradd sy'n mynychu ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg am y pedair blynedd academiaidd flaenorol hyd at a chan gynnwys 2021–2022.

Cyfanswm nifer y disgyblion oedran ysgol gynradd sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn ystod y pedair blynedd academiaidd flaenorol								
Categori	Blwyddyn Academiaidd							
	2018–2019		2019–2020		2020–2021		2021–2022	
Cyfanswm nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg	3,058	19.4%	3,141	19.6%	3,197	19.3%	3,136	19%
Cyfanswm nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg	12,685	80.6%	12,868	80.4%	13,346	80.7%	13,365	81%
Cyfanswm nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion uwchradd	15,743		16,009		16,543		16,501	

Mae'r data yn y tabl isod yn deillio o'r CYBLD ac mae'n amlinellu cyfanswm nifer y disgyblion blwyddyn 10 sy'n mynychu ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg am y pedair blynedd academiaidd flaenorol hyd at a chan gynnwys 2021–2022.

Cyfanswm nifer y disgyblion blwyddyn 10 sy'n mynychu ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg am y tair blynedd academiaidd flaenorol				
Grŵp Blwyddyn	Blwyddyn Academiaidd			
	2018–2019	2019–2020	2020–2021	2021–2022
Blwyddyn 10	496	513	517	533

Mae'r data yn y tabl isod yn deillio o ddata Llywodraeth Cymru ac yn amlinellu cyfanswm y canran o gofrestriadau disgyblion blwyddyn 11 ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf neu ail iaith) ar gyfer y pedair blynedd academiaidd flaenorol hyd at a chan gynnwys 2020–2021.

Cyfanswm y canran o gofrestriadau disgyblion blwyddyn 11 ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith Gyntaf neu Ail iaith) sy'n mynychu ysgolion uwchradd am y pedair blynedd academiaidd flaenorol				
Categori	Blwyddyn Academiaidd			
	2017–2018	2018–2019	2019–2020	2020–2021
Cymraeg (iaith gyntaf)	17%	17%	18%	18.4%

Cymraeg (ail iaith)	45%	59%	63%	62.1%
----------------------------	-----	-----	-----	-------

Mae'r data yn y tabl isod yn deillio o ddata Llywodraeth Cymru ac yn amlinellu cyfanswm y canran o gofrestriadau disgyblion blwyddyn 12 a 13 ar gyfer UG a Safon Uwch Cymraeg (iaith gyntaf neu ail iaith) sy'n mynychu ysgolion uwchradd am y pedair blynedd academiaidd flaenorol hyd at a chan gynnwys 2020–2021.

Cyfanswm y canran o gofrestriadau disgyblion blwyddyn 12 ac 13 ar gyfer UG a Safon Uwch yn y Gymraeg (iaith Gyntaf neu Ail iaith) sy'n mynychu ysgolion uwchradd yn y pedair blynedd academiaidd flaenorol				
Categori	Blwyddyn Academiaidd			
	2017–2018	2018–2019	2019–2020	2020–2021
Cymraeg (iaith Gyntaf neu Ail iaith)	4.2%	3.7%	3.5%	3.7%

DEILLIANT 5: MWY O GYFLEOEDD I DDISGYBLION DDEFNYDDIO'R GYMRAEG MEWN CYD-DESTUNAU GWAHANOL YN YR YSGOL

Mae'r data yn y tabl isod wedi'i ddarparu gan y Consortiwm ac mae'n amlinellu cyfanswm nifer yr ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg sydd wedi cyflawni'r Siarter iaith a 'Cymraeg Campus' hyd yma.

Cyfanswm nifer yr ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg sydd wedi cyflawni'r Siarter iaith a 'Cymraeg Campus'				
Lefel	Siarter iaith		Cymraeg Campus	
	Ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg	Ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg	Ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg	Ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg
Wedi cyflawni'r Wobr Efydd	17	Pob un o'r 4 ysgol uwchradd yn gweithio tuag at gyflawni'r wobr efydd.	11	Dd/B
Wedi cyflawni'r Wobr Arian	10	Dd/B	1	Dd/B
Arall	Dd/B	Dd/B	Dd/B	2 Mae ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yn rhan o raglen beilot 'Cymraeg Campus'

DEILLIANT 6: CYNNYDD YN NARPARIAETH ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG AR GYFER DISGYBLION AG ADY (YN UNOL Â'R DYLETSWYDDAU WEDI'U PENNU GAN

DDEDDF ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A'R TRIBIWNLYS ADDYSG (CYMRU) 2018)

Dd/B

DEILLIANT 7: CYNYDDU NIFER Y STAFF ADDYSGU SY'N GALLU ADDYSGU'R GYMRAEG (Y PWNC) AC ADDYSGU TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Mae'r data yn y tabl isod wedi'i ddarparu gan Uned Gwasanaethau Cymraeg yr Awdurdod Lleol. Mae'n amlinellu cyfanswm nifer a chanran y staff sy'n dweud eu bod yn rhugl neu'n weddol rugl yn y Gymraeg. Roedd yr wybodaeth yma'n gywir ym mis Chwefror 2022:

Cyfanswm nifer y staff sy'n dweud eu bod yn rhugl neu'n weddol rugl yn y Gymraeg							
Nifer y staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg		Rhugl (Cymraeg Lefel Pedwar a Phump)		Gweddol rugl (Cymraeg Lefel Tri)		Cyfanswm (Cymraeg Lefel Tri, Pedwar a Phump)	
Categori	Cyfanswm nifer y staff	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Staff mewn ysgolion	5,544	870	15.7%	201	3.6%	1,071	19.3%
Staff sy ddim wedi'u lleoli mewn ysgolion	7,352	660	8.9%	146	2.0%	806	10.9%
Cyfanswm	12,896	1,530	11.8%	347	2.7%	1,877	14.5%

Mae'r data yn y tabl isod yn deillio o'r CBGY ac mae'n amlinellu gallu gweithlu ysgolion yr Awdurdod Lleol o ran y Gymraeg ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2020/21.

Gallu o ran y Gymraeg cyfanswm yr athrawon (gan gynnwys penaethiaid, athrawon ysgol a chynorthwy-wyr cynnal dysgu ysgolion) sydd wedi'u cyflogi gan yr Awdurdod Lleol		
Lefel Sgiliau	Blwyddyn Academaidd 2020-2021	
	Nifer	%
Dim Sgiliau	450	21.2%
Lefel Mynediad	499	23.4%
Lefel Sylfaen	329	15.5%
Lefel Canolradd	167	7.9%
Lefel Uwch	137	6.4%
Lefel Rhugl	523	24.6%
Dim gwybodaeth ar hyn o bryd	21	1%
Cyfanswm	2,126	100%

Mae'r data yn y tabl isod yn deillio o'r CBGY ac mae'n amlinellu cyfanswm y gweithlu ysgolion (gan gynnwys penaethiaid, athrawon ysgol a chynorthwy-wyr cynnal dysgu ysgolion) sydd wedi'u cyflogi gan yr Awdurdod Lleol sy'n dysgu/gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer blwyddyn academiaidd 2020-2021.

Cyfanswm yr athrawon sydd wedi'u cyflogi gan yr Awdurdod Lleol sy'n addysgu/gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg		
Categori	Blwyddyn Academiaidd 2020–2021	
	Nifer	%
Addysgu/gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn eu swydd bresennol	462	21.7%
Y gallu i addysgu/gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg ond ddim yn gwneud hynny yn eu swydd bresennol	144	6.8%
Ddim yn gallu addysgu/gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg	859	40.4%
Addysgu'r Gymraeg (y pwnc) yn unig	661	31.1%
Cyfanswm	2,126	100%

Mae'r data yn y tabl isod yn deillio o CYBLD ac yn amlinellu cyfanswm canran yr athrawon sy'n cael eu cyflogi gan yr Awdurdod Lleol sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg am y pedair blynedd academiaidd flaenorol.

Cyfanswm canran yr athrawon sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg				
	Blwyddyn Academiaidd			
	2018–2019	2019–2020	2020–2021	2021–2022
Athrawon cymwys sy'n addysgu'r Gymraeg fel Iaith Gyntaf	10.9%	9.7%	8.8%	14.1%
Athrawon cymwys sy'n addysgu'r Gymraeg fel Ail Iaith (yn unig)	38.6%	39.6%	36.3%	36.3%
Athrawon cymwys sy'n addysgu pynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg	8.4%	9.7%	11.2%	5.5%
Athrawon cymwys sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, ond ddim yn gwneud hynny	6.3%	3.8%	3.4%	2.9%
Heb gymhwyso i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg	35.9%	37.2%	40.3%	41.2%